




**National Independent  
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru**



# Adroddiad Blynyddol 2017-18





# Contents

<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>1. Adrodd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru</b>	<b>6</b>
Aelodaeth y Byrddau Diogelu	6
Y camau y mae'r Byrddau wedi eu cymryd i sicrhau canlyniadau penodol	8
I ba raddau y mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu eu cynllun blynyddol diweddaraf, gan gynnwys manylion ynghylch i ba raddau y cafodd unrhyw welliannau penodol a gynigiwyd eu gweithredu	10
Beth ddigwyddodd, felly?	12
Sut y mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithredu mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'u hamcanion	19
Unrhyw geisiadau am wybodaeth benodedig y mae'r Byrddau Diogelu wedi'u gwneud dan adran 137(1)	22
Cyflawniadau'r Byrddau Diogelu yn ystod y flwyddyn	23
I ba raddau y mae aelodau'r Byrddau Diogelu wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau	30
Asesiad o sut y defnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau neu'u canlyniadau	34
Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y cyflawnodd y Byrddau Diogelu eu swyddogaethau, fel y dangosir gan ddadansoddiad o achosion y maent wedi ymdrin â nhw, ac unrhyw newidiadau y maent wedi'u rhoi ar waith	36
Pryd a sut y bachodd plant neu oedolion ar gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Byrddau a sut y cyfrannodd hyn at helpu'r Byrddau i gyflawni eu canlyniadau	39
Nifer y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y gwnaed cais amdanynt yn yr ardaloedd Bwrdd Diogelu, a pha mor effeithiol yr oeddent	43
Unrhyw wybodaeth neu ddysgu a ddosbarthwyd gan y Byrddau Diogelu, neu hyfforddiant y maent wedi'i argymhell neu'i ddarparu	44
Sut y mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol	47
Materion eraill sy'n berthnasol i waith y Byrddau Diogelu	48
<b>2. Cymorth a chyngor y Bwrdd Cenedlaethol i Fyrddau Diogelu, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol</b>	<b>51</b>
<b>3. Cyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hyn</b>	<b>56</b>





**National Independent  
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru**

Annwyl ddarllenydd,

Mae hwn yn adroddiad blynyddol gwahanol i'r arfer oherwydd mae'n dechrau ac yn gorffen â llythyrau. Mae'r adroddiad yn nodi diwedd tymor y Bwrdd Cenedlaethol cyntaf. Hwn yw ein trydydd adroddiad blynyddol. Mae'r gred a fynegwyd yn ein hadroddiad cyntaf yn parhau'r un fath:

***Mae'r Bwrdd Gwladol yn cydnabod bod yr angen i atal niwed yn un o dasgau mwyaf heriol holl weithgarwch dyn.***

Mae'r gwahanol fathau o niwed a ddiroddfer gan blant, pobl ifanc ac oedolion yn ein herio ar lawer o lefelau, oherwydd gall camdriniaeth yn eu holl ffurfiau ddigwydd yn unrhyw le – yn ein cartrefi lle dylem fod yn teimlo'n hollol ddiogel, a hyd yn oed mewn gwasanaethau a gaiff eu harolygu'n rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd cartrefi teuluol yn ei chael yn anodd rhoi blaenoriaeth i ofal hanfodol a magwraeth pan aiff anawsterau'n drech na'u cryfderau, pan fydd aelodau o'r teulu yn ymddangos ac yna'n diflannu, a lle ceir cyfuniadau peryglus o drais, ymddygiad caethiwus a chyfyngiadau er enghraifft. Mae astudiaethau adolygol a rhagolygol o ganlyniadau iechyd meddwl yn tystio i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag achosion o esgeuluso a cham-drin plant, pobl ifanc ac oedolion sydd â gwahanol fathau o anghenion o ran cymorth.

Mae pobl yn ganolog i ddull gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n sicrhau bod gofal cymdeithasol yn wasanaeth integredig gydol oes, ac mae dull gweithredu o'r fath yn ffordd bwysig o ymdrin â'r heriau hynny.

Yng Nghymru mae niwed, sy'n cynnwys gweithredoedd anfwriadol ac anwaith, yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i bob gweithiwr proffesiynol, sefydliad a mudiad wneud popeth posibl i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

Mae pob Bwrdd Rhanbarthol yn sylweddoli pwysigrwydd sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau mewn lleoliadau trefnus, lle cafwyd gwared â staff anaddas drwy brosesau sgrinio a lle rhoddir blaenoriaeth i raglenni sefydlu, goruchwyliaeth a hyfforddiant. Maent hefyd yn sylweddoli pwysigrwydd ymateb yn gymwys i rybuddion – yr arwyddion sy'n awgrymu bod niwed yn digwydd – a phwysigrwydd gwneud ymholiadau a chymryd camau gweithredu i gynorthwyo ac amddiffyn unigolion.

Mae'r angen i adrodd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru yn ystod 2017-18 yn golygu bod yn rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol fod yn gyfarwydd â chynlluniau ac adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol. Mae'r adran ganlynol yn cadarnhau'r cynnydd a wnaed ers y llynedd, yn dangos bod Cadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol yn fwy hyderus ynghylch dylanwadu ar ymarfer yn rhanbarthol yn ogystal ag yn genedlaethol, ac yn cydnabod eu hangen nhw i gydweithio â'i gilydd. Rydym yn croesawu'r ffaith bod cyfarfodydd wedi dechrau cael eu cynnal rhwng y Cadeiryddion a Llywodraeth Cymru. Yn ein barn ni mae sicrhau bod y Cadeiryddion yn perchenogi eu cyfarfodydd eu hunain, heb fod y Bwrdd Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru yn gyfrwng rhyngddynt, yn ddull cadarnhaol o lunio'r agenda ddiogelu. Caiff hynny ei hybu gan ffocws newydd grŵp diogelu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ein llythyr olaf wedi'i gyfeirio at y Gweinidog. Mae'n cynnwys argymhellion sy'n deillio o'n gwaith ledled Cymru.

Yr eiddoch yn gywir,

**Margaret Flynn, Keith Towler, Simon Burch, Ruth Henke, Jan Pickles a Rachel Shaw**

## 1

## Adrodd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru

### Aelodaeth y Byrddau Diogelu

Caiff pob un o'r Byrddau Diogelu eu llunio'n rhanbarthol, ac maent yn cynnwys yr awdurdod lleol ar gyfer pob ardal, prif swyddogion heddlu, y bwrdd iechyd lleol, yr ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal, a darparwyr gwasanaethau prawf a gwasanaethau troseddau ieuencid. Er bod ychydig o newid yn niferoedd y sawl sy'n bresennol, mae'r sefydliadau sy'n perthyn i bob bwrdd plant ac oedolion yn debyg yn gyson. Gan amlaf mae'r amrywiadau yn gysylltiedig â ph'un a oes lleoliadau diogel yn y rhanbarth ai peidio, ac yn gysylltiedig â'r graddau y ceir cynrychiolaeth o'r trydydd sector.

Yn ystod 2017-18, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn gyfrifol am gadeirio pob Bwrdd Rhanbarthol. Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol, swyddogion heddlu a swyddogion y byrddau iechyd oedd eu cyd-gadeiryddion / is-gadeiryddion.

Mae meddygon yn mynychu pump o'r chwe Bwrdd Plant: mae meddygon penodedig o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynychu Byrddau Plant Caerdydd a'r Fro a Gwent; caiff Byrddau Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru eu mynychu gan feddygon a enwir, o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn achos y naill ac o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn achos y llall; ac mae Bwrdd Plant Bae'r Gorllewin yn cael ei fynychu gan Gyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ym maes Gofal Sylfaenol. Nid oes unrhyw un o'r Byrddau Oedolion yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n ymarferwyr meddygol.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn fawr. Mae'r ddau fwrdd yng Ngwent draean yn fwy o ran eu maint, ac mae byrddau Gogledd Cymru draean yn llai.

Mae nifer cyfarfodydd y Byrddau Rhanbarthol (Byrddau Plant neu Oedolion) bob blwyddyn yn amrywio o bedwar yn achos Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, i chwech yn achos Gogledd Cymru.

Mae pob un o'r Byrddau Rhanbarthol yn nodi manylion ynghylch presenoldeb yr aelodau. Mae Caerdydd a'r Fro yn adrodd ynghylch presenoldeb yn y ddau fwrdd. Mae Cwm Taf yn cynnwys tabl cynhwysfawr sy'n adlewyrchu presenoldeb ym mhwyllgor gweithredol y Bwrdd ac mewn is-grwpiau ac sy'n dangos a gyfrannodd asiantaethau ai peidio i adolygiadau ymarfer. Mae Gwent yn cyfeirio at gyfranogiad "rheolaidd". Nododd Canolbarth a Gorllewin Cymru fod y ffaith nad yw dau bartner ar gael yn aml wedi effeithio ar y partneriaethau. Mae Gogledd Cymru yn cyflwyno tablau presenoldeb ar gyfer y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion ac yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau yng nghyswllt ei Grwpiau Cyflawni Lleol a'i brosesau adolygu ymarfer. Mae Bae'r Gorllewin yn nodi bod yr aelodau'n cytuno i fynychu 75% o gyfarfodydd y Bwrdd, a bod modd sicrhau cyfradd o 100% ar gyfer presenoldeb drwy anfon dirprwy.

<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Yn ystod <b>2016-17</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 36 aelod ac roedd gan y Bwrdd Oedolion 24 aelod o Gaerdydd a Bro Morgannwg; yn ystod <b>2017-18</b> , cafodd yr un sefydliadau a'r un mudiadau eu cynrychioli ar y Bwrdd Plant ac roedd 26 yn mynychu'r Bwrdd Oedolion. Roedd y Bwrdd Oedolion wedi sicrhau cynrychiolaeth o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol a Charchar Ei Mawrhydi Caerdydd. Ni cheir cynrychiolaeth mwyach o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
<b>Cwm Taf</b>	Yn ystod <b>2016-17</b> , roedd gan y cyd-Fwrdd Rhanbarthol 27 aelod o Ferthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf; yn ystod <b>2017-18</b> , roedd ganddo 24 aelod heb fod unrhyw newidiadau i'r sefydliadau a'r mudiadau a gâi eu cynrychioli
<b>Gwent</b>	Yn ystod <b>2016-17</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 24 aelod ac roedd gan y Bwrdd Oedolion 23 aelod o Flaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen; yn ystod <b>2017-18</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 32 aelod ac roedd 31 yn mynychu'r Bwrdd Oedolion
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Yn ystod <b>2016-17</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 23 aelod ac roedd gan y Bwrdd Oedolion 20 aelod o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys; yn ystod <b>2017-18</b> , roedd 23 yn mynychu'r Bwrdd Plant ac roedd 20 yn mynychu'r Bwrdd Oedolion
<b>Gogledd Cymru</b>	Yn ystod <b>2016-17</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 24 aelod ac roedd gan y Bwrdd Oedolion 25 aelod o Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam; yn ystod <b>2017-18</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 16 aelod ac roedd gan y Bwrdd Oedolion 17 aelod
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Yn ystod <b>2016-17</b> , roedd gan y Bwrdd Plant 27 aelod ac roedd gan y Bwrdd Oedolion 26 aelod o Ben-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot; yn ystod <b>2017-18</b> , roedd 24 yn mynychu'r Bwrdd Plant a newidiodd yr aelodaeth er mwyn cynnwys Uned Ddiogel Hillside a'r Uned Troseddwr Ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc, ac roedd 22 yn mynychu'r Bwrdd Oedolion heb fod cynrychiolaeth mwyach o Garchar Ei Mawrhydi Abertawe



## WYDDECH CHI?

Yn ystod 2017-18 roedd yr un person yn cynrychioli Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar ddeg o blith yr 11 o Fyrddau Rhanbarthol...

## Y camau y mae'r Byrddau wedi eu cymryd i sicrhau canlyniadau penodol

Byddai'n anodd rhoi sylwadau ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu heb wybod beth yw nodau clir pob un o'r Byrddau. Caiff y disgwiliad y bydd Byrddau Rhanbarthol yn manylu ar yr hyn y maent yn fodlon bod yn gyfrifol am ei gyflawni ei ddangos yn y tabl canlynol. Mae'r pwyslais ar weithgarwch, ac mae rhai o'r gweithgareddau'n nes nag eraill at fod yn gamau i ymyrryd yn gadarnhaol ym mywydau plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Canolbwyntir yn gadarn iawn ar y modd y mae'r Byrddau a'r Unedau Busnes yn gweithredu.

	Camau gweithredu a chanlyniadau
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Heb ei gwblhau
<b>Cwm Taf</b>	<b>Mwy o gydweithredu</b> ar draws trefniadau diogelu plant ac oedolion; <b>wedi cydgysylltu a monitro gweithgareddau pob partner</b> drwy'r cynllun gwaith ac adolygiadau; <b>wedi creu fframwaith rheoli perfformiad</b> ar gyfer yr is-grwpiau; <b>ac wedi cynyddu capasiti'r Uned Fusnes</b> er mwyn cynorthwyo'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth a chydgyssylltu adolygiadau
<b>Gwent</b>	<b>Wedi cyfuno ffrydiau gwaith</b> ar draws y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion er mwyn sicrhau cyfathrebu da; <b>wedi cysylltu cynlluniau gwaith â'r cynllun strategol blynyddol</b> ; <b>wedi cynnwys ymarferwyr yng ngwaith y Byrddau</b> ; <b>wedi datblygu fframwaith sicrhau ansawdd</b> i ddarparu "cipolwg" ar drefniadau diogelu; <b>wedi datblygu, cyflwyno a chomisiynu rhaglen hyfforddiant</b> er mwyn codi ymwybyddiaeth o drefniadau diogelu; <b>wedi treialu proses hybrid ar gyfer Adolygiadau Dynladdiad Domestig</b> er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol; <b>wedi ceisio barn pobl o bob oed am nifer o bynciau</b> ; <b>wedi gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</b> er mwyn hybu eiriolaeth mewn gwasanaethau i oedolion; ac <b>wedi ymwneud â llunio dogfen y strategaeth ranbarthol</b> : Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	<b>Strwythurau llywodraethu cyfun ac agenda drawsbynciol</b> ar gyfer y byrddau gweithredol er mwyn cryfhau'r berthynas strategol rhwng y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion; <b>wedi gweithredu fframwaith rhanbarthol ar gyfer sicrhau ansawdd ac adrodd ynghylch perfformiad</b> er mwyn "deall ymarfer diogelu yn well"; <b>wedi datblygu fframwaith ar gyfer cynnal Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth</b> er mwyn sicrhau cysondeb, hybu gwaith dysgu myfyriol a rhannu arfer da; ac <b>wedi sefydlu a chryfhau trefniadau llywodraethu yng nghyswllt Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</b>



	Camau gweithredu a chanlyniadau
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>Wedi sicrhau Uned Fusnes â thîm cyflawn o staff</b> er mwyn gwella perfformiad y Byrddau o safbwynt paratoi pecynnau sefydlu i aelodau'r Byrddau, creu fframwaith sicrhau ansawdd a diweddarau polisi cwyno'r Byrddau, er enghraifft; <b>wedi cyfrannu at ddatblygu Gweithdrefnau Cymru Gyfan; wedi adolygu data perfformiad</b> ynghylch ymarfer sy'n ymwneud â Phlentyn / Oedolyn sy'n Wynebu Risg, ac wedi defnyddio hynny (i) i graffu ar adroddiadau asiantaethau partner unigol a (ii) i lywio asesiadau a chynlluniau ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg; <b>wedi cael cyflwyniadau</b> gan asiantaethau lleol a chenedlaethol er mwyn llywio gwaith dysgu; <b>wedi ceisio gwybodaeth, fel mater o drefn, am ymarfer diogelu</b> yn ward Tawel Fan; <b>wedi tynnu themâu allan o adolygiadau ymarfer</b> ar gyfer ymarferwyr, ee amseroldeb atgyfeirio achosion cyn i blant gael eu geni, cydymffurfio ar yr wyneb, gweithio gydag ysbyty / teuluoedd anghydweithredol, a Thaliadau Uniongyrchol a diogelu; ac <b>wedi cynnal dadansoddiad o anghenion o ran hyfforddiant</b> er mwyn adnabod bylchau mewn hyfforddiant ynghylch diogelu
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Mae gan y Byrddau a'r grwpiau rheoli <b>gylch gorchwyl a adolygir bob blwyddyn</b> ac mae gan bob aelod o Fwrdd <b>broffil rôl</b> a lofnodir ganddynt er mwyn sicrhau eu bod yn ymrwymo i waith y Bwrdd; mae gan y Byrddau <b>Grŵp Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau ac Ymarfer, Grŵp Monitro Ansawdd a Pherfformiad ac un Cyd-grŵp Rheoli Hyfforddiant</b> er mwyn mynd i'r afael â swyddogaethau'r Byrddau



## WYDDECH CHI?

Mae'r cwestiwn "Beth fyddai'n digwydd pe na baem yn gwneud ABC?" yn ffordd bwerus o ddiol a dethol mewnbynnau a chanlyniadau – a'r graddau y maent yn gysylltiedig â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion.

## I ba raddau y mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu eu cynllun blynyddol diweddaraf, gan gynnwys manylion ynghylch i ba raddau y cafodd unrhyw welliannau penodol a gynigiwyd eu gweithredu

Nodweddion cynllunio yw crynhoi gwybodaeth a threfnu adnoddau. Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Byrddau Rhanbarthol lunio cynlluniau blynyddol ac adrodd ynghylch y graddau y maent wedi'u gweithredu. Mae'r ddau dabl canlynol yn cyfuno dyheadau i wella trefniadau diogelu a gwella canlyniadau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed.

	<b>Blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer plant yn ystod 2017</b>
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Effeithiolrwydd y system amddiffyn plant; plant sydd ar gyrion y system amddiffyn plant; cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth; gweithrediadau'r Bwrdd
<b>Cwm Taf</b>	Strwythur cadarn a threfniadau llywodraethu clir; yn rhagweld ac yn adnabod grwpiau penodol sy'n wynebu risg; yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau; yn cael sicrwydd bod ymarfer a phrosesau rhyngasiantaethol effeithiol ar waith; gweithlu amlasiantaeth mwy hyderus a hyddysg; yn mynd ar drywydd cyfleoedd i gydweithredu er mwyn hybu ei amcanion
<b>Gwent</b>	Lleihau'r effeithiau y mae sgiliau rhianta gwan yn eu cael o safbwynt dioddef esgeulustod a chamdriniaeth emosïynol; gwella gwaith gyda phobl ifanc adolescent sy'n ymddwyn yn beryglus ar-lein, ac o safbwynt camfanteisio'n rhywiol ar blant; sicrhau bod ymarfer diogelu'n parhau yn effeithiol tra bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei gweithredu; a chynnal Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant sy'n effeithiol
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Gwella canlyniadau ar draws y "continwmm o angen"; dangos bod llais plant sy'n wynebu risg, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn ganolog i'n gwaith; cael sicrwydd ein bod yn adnabod y plant sy'n wynebu'r risg fwyaf a chymryd camau i'w diogelu'n effeithiol; datblygu a gwella'n barhaus y modd yr ydym yn gweithio fel bod y canlyniadau i blant sy'n wynebu risg yn gwella; darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y bartneriaeth; a sicrhau bod y Bwrdd yn gallu dangos effeithiolrwydd
<b>Gogledd Cymru</b>	Adnabod a diogelu plant sy'n wynebu risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt; a gwella canlyniadau a phrofiadau i blant
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Esgeulustod; camfanteisio'n rhywiol ar blant; plant sydd ar goll / rheoli ymddygiad sy'n golygu bod plant yn cymryd risg

	<b>Blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer oedolion yn ystod 2017</b>
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Gofal cartref a gofal mewn cartrefi nyrsio; diogelu pobl â dementia
<b>Cwm Taf</b>	Strwythur cadarn a threfniadau llywodraethu clir; yn rhagweld ac yn adnabod grwpiau penodol sy'n wynebu risg; yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau; yn cael sicrwydd bod ymarfer a phrosesau rhyngasiantaethol effeithiol ar waith; gweithlu amlasiantaeth mwy hyderus a hyddysg; yn mynd ar drywydd cyfleoedd i gydweithredu er mwyn hybu ei amcanion
<b>Gwent</b>	Targedu ymyriadau at oedolion sy'n wynebu risg o ddioddef esgeulustod a chamdriniaeth ariannol; gwella ansawdd gofal o safbwynt rheoli niwed a achosir gan friwiau pwysu [wlserau] a hybu eiriolaeth i oedolion; sicrhau bod ymarfer diogelu'n parhau yn effeithiol tra bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei gweithredu; a chynnal Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion sy'n effeithiol
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Gwella canlyniadau ar draws y "continwmm o angen"; dangos bod llais oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn ganolog i'n gwaith; cael sicrwydd ein bod yn adnabod yr oedolion sy'n wynebu'r risg fwyaf a chymryd camau i'w diogelu'n effeithiol; datblygu a gwella'n barhaus y modd yr ydym yn gweithio fel bod y canlyniadau i oedolion sy'n wynebu risg yn gwella; darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y bartneriaeth; a sicrhau bod y Bwrdd yn gallu dangos effeithiolrwydd
<b>Gogledd Cymru</b>	Gwella canlyniadau i oedolion sy'n destun cynlluniau amddiffyn oedolion; y staff a'r cyhoedd yn hollol ymwybodol o'r angen i ddiogelu ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg, ac yn gwybod beth i'w wneud; y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau diogelu
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Llywodraethu; sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau partner; ac ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr

## Beth ddigwyddodd, felly?

Ar yr ychydig dudalennau nesaf rydym yn adrodd ynghylch yr hyn y mae pob Bwrdd Rhanbarthol wedi'i wneud, gan nodi tri chafeat i ddechrau.

Rydym wedi dewis *peidio* ag adlewyrchu rhai gweithgareddau sy'n codi cwestiynau ac a fyddai'n drysu darllenwyr sy'n anghyfarwydd â'r iaith a ddefnyddir gan wasanaethau. Er enghraifft, "...wedi ystyried Proffil Gofal Graddedig 2 ond nid oedd modd dod i gytundeb ynghylch a ddylid ymrwymo iddo ai peidio...rydym yn ceisio datblygu dull mwy cydgysylltiedig o weithredu yn y maes hwn ... trafodwyd Sicrhau'r Dystiolaeth Orau...Templed Adrodd ynghylch Partneriaethau ar waith...yn aros am fersiynau terfynol rhai canllawiau ynghylch ymarfer diogelu...Grŵp Amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MASE) / Panel Ymddygiad Peryglus (RBP) heb ei sefydlu eto...17% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau...wedi ystyried dichonolrwydd cyfuno [dulliau gweithredu awdurdodau lleol] i greu un swyddogaeth sicrhau ansawdd ar gyfer y Bwrdd cyfan, ond nid yw'r amryw fodolau busnes yn ei gwneud yn hawdd uno ar hyn o bryd...". Nid yw bob amser yn glir sut y mae datganiadau o'r fath ynghylch dulliau'n cysylltu â blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol.

*Nid ydym* yn adrodd ynghylch y blaenoriaethau y mae Byrddau Rhanbarthol yn bwriadu eu cario drosodd, er enghraifft, "Cytunwyd y byddai'r cam gweithredu allweddol hwn yn aros yn y cynllun blynyddol...Roedd y Bwrdd yn teimlo bod angen mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon gyda llawer mwy o ffocws yn y cynllun blynyddol nesaf...gohiriwyd y broses tan 2018/19 er mwyn caniatáu mwy o amser iddi ymsefydlu...".

Yn ogystal, oherwydd bod y Byrddau Rhanbarthol yn cynnwys uwch-reolwyr ac arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, a bod ganddynt strwythurau gwahanol o ran atebolrwydd, nid ydym yn adrodd ynghylch eu presenoldeb mewn cyfarfodydd, y graddau y maent wedi ymgysylltu â grwpiau proffesiynol penodol, neu'u cyflwyniadau ar bynciau penodol i'r Byrddau Rhanbarthol neu'u his-grwpiau.



### WYDDECH CHI?

Pe bai blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol, a'r camau y maent wedi'u cymryd i wneud cynnydd yng nghyswllt eu blaenoriaethau, yn cael eu hysgrifennu ar ffurf datganiadau syml sy'n cychwyn â "Gadewch i fi ddangos i chi sut y byddwn yn...", byddai'n haws dilyn y cysylltiad rhwng gwaith y Byrddau a'u blaenoriaethau



## Rhieni sy'n addysgu?

Mae "addysg ddewisol yn y cartref" yn bwnc trafod i Gaerdydd a'r Fro wrth i'w adrannau addysg fonitro data ynghylch presenoldeb yn yr ysgol a herio gwaharddiadau amhriodol neu anghyfreithlon - sy'n cynnwys annog rhieni i dynnu eu plentyn o'r ysgol. Mae'r rhanbarth am weld ymyriadau

cynnar ynghyd â thystiolaeth sy'n dangos yr eir i'r afael â gwrthdaro er mwyn atal plant rhag cael eu tynnu allan o'r ysgol yn y lle cyntaf. Yn ogystal, mae'n datblygu dull gweithredu rhanbarthol cyson o ymdrin â phlant sy'n cael addysg yn y cartref.

### Mae'n digwydd!

Mae Bwrdd Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn arwain yr adolygiad o Weithdrefnau Amddiffyn Oedolion a Phlant Cymru Gyfan. Mae'r gwaith "yn mynd rhagddo ar gyflymder priodol gyda chymorth da gan gydweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth a rhanbarth".

### Sut hwyl rydym yn ei chael arni?

Cadarnhaodd llefarydd fod y Bwrdd Rhanbarthol wedi "dechrau sefydlu set ddata fwy penodol o fesurau perfformiad allweddol" drwy gomisiynu gwaith ac archwilio beth y mae Byrddau eraill yn ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

### Adroddiadau ynghylch arolygiadau o wasanaethau

Caiff yr adroddiadau a lunnir gan Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eu rhannu a'u trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rhanbarthol.

## Argymhellion "Dylem..."

Mae archwiliad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch plant y mae eu hymddygiad yn niweidiol ac wedi'i rywioli wedi argymhell y dylid diweddarau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan,

rhannu arfer da a gwirio a yw'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn gwella'r hyn sy'n digwydd er budd plant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro.

**Mewn undeb mae nerth!** Mae gan ddau awdurdod lleol Cwm Taf gyd-Fwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion ers 2015.

# telegraph cwm taf

## Rhyddid ac Amddiffyn

Mae gan y Bwrdd Rhanbarthol gytundeb rhannu gwybodaeth â'r bwrdd iechyd ar gyfer yr adegau pan fydd pobl heb alluedd meddyliol – pobl y gallai'r ffaith eu bod wedi'u lleoli mewn ysbyty neu gartref gofal

preswyl olygu eu bod yn cael eu hamddifadu o ryddid. Mae'n edrych yn ofalus ar wybodaeth am holl gamau'r prosesau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion, er mwyn adnabod tueddiadau

a nodi materion y mae angen eu hesbonio ymhellach. Er enghraifft, er bod nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi cynyddu 20%, mae hynny'n gysylltiedig â chynnydd yn nifer yr achosion o gamdriniaeth

ddomestig yr adroddir yn eu cylch ar draws y rhanbarth. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau ynghylch achosion lle amheuir bod oedolion yn wynebu risg.

### Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid = llawer o waith / gwaith papur

Gwelwyd cynnydd o 50% yn y defnydd a wneir o eiriolwyr annibynnol, er mwyn cael help i ddarganfod a yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r llwyth gwaith yn cynyddu – roedd 990 o geisiadau'n disgwyl am asesiadau ar 31 Mawrth 2018, a oedd

bron 800 yn llai na'r nifer ar 31 Mawrth 2017, sef 1,786. Yn ôl y Bwrdd, "mae'r achosion a oedd yn cael eu hasesu wedi mynd yn fwy cymhleth." Nid yw'n syndod bod Senedd y DU yn adolygu proses sy'n tyfu ac sy'n golygu cymaint o waith!

### Ein protocolau

Bu'r Bwrdd Rhanbarthol yn adolygu ei gynlluniau amddiffyn plant; ei bolisi ynghylch diogelu plant mewn ysgolion; ei ymarfer o safbwynt datrys pryderon ynghylch trefniadau diogelu rhyngasiantaethol; canllawiau ynghylch gwneud penderfyniadau mewn cynadleddau amddiffyn plant; dulliau o weithio gyda theuluoedd anghydweithredol; polisi ynghylch Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid; canllawiau ynghylch cwblhau llinellau amser a chronolegau ar gyfer adolygiadau ymarfer;

a pholisi cwyno ynghylch prosesau amddiffyn plant ac oedolion. Penderfynodd y Bwrdd nad oedd arno angen polisi ynghylch dod yn oedolyn, a phenderfynodd ddrafftio "cyfres o egwyddorion i asiantaethau eu mabwysiadu". Dywedodd llefarydd fod y rhain "yn galluogi canlyniadau effeithiol i blant a phobl ifanc...mae penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud... gwelwyd gwelliant amlwg yn ansawdd y llinellau amser sydd wedi'u cwblhau".

### Pum archwiliad

Mae'r Bwrdd Rhanbarthol wedi buddsoddi amser mewn cael gwybodaeth am ansawdd trafodaethau a gofnodir yn ystod y broses ddiogelu; ystyried sut y mae eiriolaeth – ffordd o helpu pobl i gael eu cynnwys pan fydd awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau – yn cael ei defnyddio mewn trefniadau diogelu; edrych yn ofalus ar yr achosion diogelu sydd wedi'u harwain gan ymddiriedolaethau a byrddau iechyd; deall natur yr adroddiadau a geir gan

ysbytai preifat ynghylch achosion lle amheuir bod oedolion yn wynebu risg; a thracio canlyniadau ymchwiliadau troseddol. Mae gwaith craffu o'r fath yn ddefnyddiol o safbwynt tynnu sylw at fannau lle gellid gwella ymarfer ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r sector plismona ac o safbwynt nodi'r ymarfer a werthfawrogir gan bobl sy'n cael budd ohono – a'u teuluoedd.

### Cadw'n iach ac yn ddiogel

Mae gwefan y Bwrdd yn cynnwys dolen gyswilt â chronfa ddata DEWIS Cymru. Mae DEWIS Cymru yn darparu gwybodaeth gan rwydwaith o sefydliadau a mudiadau yn y sector gofal cymdeithasol, y sector iechyd a'r sector gwirfoddol. Buddsoddodd Cwm Taf mewn hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o drefniadau diogelu. Felly, er enghraifft, cafodd gwybodaeth am y ddyletswydd benodol i hysbysu ei rhannu ag 16 o wasanaethau darparu gofal.





## CYSYLLTU POBL Â'I GILYDD

Mae Byrddau Gwent yn dod ag ymarferwyr a gwirfoddolwyr ynghyd o'i bum ardal awdurdod lleol ac mae'n cynnal "digwyddiadau rhwydweithio".


# CANLLAWIAU A HYFFORDDIANT

Mae Bwrdd Rhanbarthol Gwent wedi cynnwys oedolion yn ei brotocol ynghylch esgeulustod ac mewn canllawiau ymarfer a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn flaenorol. Meddai llefarydd, "Rydym hefyd wedi diwygio ein rhaglenni hyfforddiant cyffredinol er mwyn creu'r cysylltiadau â sgiliau rhianta gwan a chamdriniaeth emosiynol. Mae cyrsiau hyfforddiant ar gael

hefyd ynghylch cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein; mynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niwed; ac ystyried manteision gwasanaethau eiriolaeth." Mae'r Bwrdd hefyd "wrthi'n cytuno ar brotocol gweithio a chanllawiau ymarfer er mwyn ategu'r canllawiau presennol a ddefnyddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan" i reoli'r niwed a achosir gan wlsarau pwysu.

## ATAL NIWED

Mae Bwrdd Rhanbarthol Gwent wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gwent i fesur y graddau y mae camdriniaeth ariannol yn digwydd yn ei boblogaeth o "oedolion sy'n wynebu risg". Mae'n bwnc a gaiff ei ystyried hefyd mewn digwyddiadau sy'n dod ag ymarferwyr ynghyd.



# Observer

## Canolbarth a Gorllewin Cymru



RHIFYN ARBENNIG

### Cael hyfforddiant ynghylch diogelu

Mae'r Bwrdd yn awyddus i adeiladu ar ei raglen sefydlu a'i strategaeth hyfforddiant ac i nodi pa hyfforddiant ynghylch diogelu sydd ar gael ar draws y rhanbarth.

### Rhoi arweinyddiaeth ar waith

Mae Bwrdd Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wrthi'n meithrin arweinyddiaeth a threfniadau cydweithio ar draws y rhanbarth, ac mae'n sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud yr hyn y mae'r gyfraith yn dweud y dylent ei wneud. Mae'r gwaith ymgysylltu ag ymarferwyr, a gyflawnwyd gan y Bwrdd, wedi "cyfrannu i...bolisiau diogelu allweddol"; ac yn fwy cyffredinol, mae gwefan y Bwrdd a'i ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol yn parhau "i fod o gymorth i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau dinasyddion...a'u hannog i adrodd am bryderon ynghylch pobl a all fod mewn perygl".

## O gasglu gwybodaeth i gymryd camau gweithredu

Mae gan Fwrdd Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ddi-ddordeb mewn darganfod pa welliannau y mae'n eu gwneud i fywydau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n "wynebu risg" o ddi-ddordeb niwed. Felly, ar ôl cryfhau ei is-grwpiau, ei strwythurau, ei Uned Fusnes a'i grwpiau gweithredol lleol, mae wedi datblygu adnodd "Y cymorth iawn ar yr adeg iawn" er mwyn gwella ymatebion diogelu; ac mae gwaith ar y gwahaniaeth rhwng beth yw

ymarfer gwael a beth sy'n gofyn am ymchwiliad diogelu neu ymchwiliad gan yr heddlu wedi arwain at (i) polisi ynghylch gweithio gyda rhieni y nodwyd bod ganddynt salwch meddwl; (ii) sefyllfa lle "mae mwy o deuluoedd yn cael eu cefnogi drwy wasanaethau ataliol heb yr angen am gynlluniau a pheynnau gofal a chymorth ffurfiol"; a (iii) syniadau i sicrhau nad yw gweithgareddau diogelu'n dibynnu'n gyfan gwbl ar wybodaeth gan y sector gofal cymdeithasol.

### Dysgu am fywydau cymhleth

Mae hynny wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r "ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad" a dulliau o atal hunanladdiad, ac "wedi ei gwneud yn bosibl olrhain yn well a monitro'r plant o'r tu allan i'r Sir sydd wedi eu gosod o fewn Sir Benfro". Mae'r Bwrdd wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i hybu'r gwaith o ddatblygu canllawiau ymarfer cenedlaethol ynghylch addysg yn y cartref, ac mae wedi dylanwadu ar gonsensws cenedlaethol ynghylch yr angen am gofrestr orfodol. Mae'r broses y cytunwyd arni'n genedlaethol ar gyfer monitro a thracio ansawdd gofal mewn gwasanaethau - "Uwchgyfeirio Pryderon" - yn cael ei hatgyfnerthu yn y rhanbarth.

### Beth y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym

Mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn cynnal Bwrdd Iau Diogelu Plant, a hwylusir gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol Tros Gynnal. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio gydag Uned Fusnes y Bwrdd i sicrhau bod pynciau cyffredin yn cael eu rhannu. Er enghraifft, ceir tudalen sy'n dwyn y teitl "Gwrth-fwlio" ar wefan y Bwrdd Rhanbarthol; ac ymgynghorwyd â phobl ifanc o'r canolbarth a'r gorllewin ynghylch y cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith hwn yn dangos sut y gall lleisiau plant a phobl ifanc helpu i lunio cymorth a gwasanaethau gwel.



# Guardian Gogledd Cymru



## LLEDAENU NEGESEUON YNGHYLCH DIOGELU

Roedd yr Wythnos Genedlaethol Diogelu yn gyfle i chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a'r sector gwirfoddol rannu gwybodaeth â'r cyhoedd am y niwed y mae pobl yn ei ddiodef, a gwybodaeth yr un mor bwysig am yr hyn y gall unrhyw un ei wneud os amheuir bod plentyn neu

oedolyn yn cael ei niweidio. Roedd gan lyfrgelloedd a phractisiau meddygon teulu ar draws y rhanbarth stondinau gwybodaeth; roedd gan y Gymdeithas Alzheimer's fannau gwybodaeth Dementia RED; a chynhaliodd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru glinigau diogelu.

## RHANNU SYNIADAU

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru yn credu'n gryf mewn dod â phobl ynghyd i archwilio'r ffordd orau o amddiffyn plant a phobl ifanc rhag pobl a allai gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae wrthi'n gweithio gyda'r NSPCC i ddeall yn well yr amgylchiadau lle mae plant a phobl ifanc yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae archwiliad wedi

dangos bod arfer da calonogol yn bodoli a bod llawer mwy i'w wneud os bwriedir sicrhau mwy o ymwybyddiaeth. Yn yr un modd, mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 wedi golygu rhannu syniadau â'r grŵp rhanbarthol sy'n bennaf gyfrifol am ddangos i'w chwe awdurdod lleol beth y mae'r Ddeddf yn ei olygu.

## AMLYGU ARFER DA

Disgwylir i'r sefydliadau a'r mudiadau a gynrychiolir yn y Bwrdd Rhanbarthol sôn am enghreifftiau o ymyriadau diogelu cadarnhaol, a chaiff y sefydliadau a'r mudiadau sy'n mynychu'r cyfarfodydd am ymarfer diogelu oedolion eu hannog i wneud hynny hefyd. Yn ogystal, mae

Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu am oedolion sy'n wynebu risg o niwed i sicrhau bod Cynlluniau Amddiffyn Oedolion – sy'n deillio o'r ffaith bod awdurdod lleol yn gwybod bod person wedi cael niwed – yn elwa o'r hyn a ddysgwyd.

## SICRHAU

### YMWYBYDDIAETH O GYFRIFOLDEB PAWB

Caiff aelodau'r Bwrdd Rhanbarthol becynnau sefydlu fel eu bod yn deall eu cyfrifoldebau. Cynhaliodd y Bwrdd sesiwn ddatblygu er mwyn egluro ei ddiben, ei flaenoriaethau a'i berfformiad. Yn ogystal, mae wrthi'n archwilio'r camau sy'n perthyn i ymarfer diogelu oedolion

er mwyn gweld ble y mae angen gwneud gwelliannau. Mae hynny'n sicrhau bod y Bwrdd Rhanbarthol – sydd wedi troedio milltiroedd lawer ar hyd y daith o safbwynt ymarfer – yn cofnodi ymarfer gwerthfawr yn ogystal ag ymarfer gwael.

## ACHOSION O OR- GASGLU A CHADW

Mae dull Gogledd Cymru o ymdrin ag achosion o hunanesgeuluso, ac achosion o or-gasglu a chadw, wedi cael ei rannu drwy gyfres o weithdai a thrwy ddau brotocol sy'n deillio o brofiad ymarferwyr, eu gwaith ymchwil a'u tir cyffredin o safbwynt hybu "arfer da."

# Independent Bae'r Gorllewin



## Ymgyrchu

Tynnodd ymgyrch ar y radio sylw gwrandawyr at yr effeithiau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlant sydd ar goll. Yn ogystal, arweiniodd y Bwrdd ymgyrchoedd a oedd yn ymwneud ag atal caethwasiaeth a masnachu pobl. Esboniodd llefarydd fod y Bwrdd wedi clustnodir hyfforddiant y mae ei angen ynghylch "deddfwriaeth

newydd a'r modd y caiff y ddeddfwriaeth honno ei defnyddio, a'i fod yn hybu'r defnydd o ddeddfau cysylltiedig yn weithredol er mwyn mynd ar drywydd troseddwy'r a'u cynorthwywyr, y mae cysylltiad rhyngddynt a phlant sy'n absennol / sy'n mynd ar goll ac y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt."

## Asesu anghenion

Mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn gweithio gyda Gwella - sef prosiect ymyrryd yn gynnar ac atal, sy'n ceisio lleihau'r risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc - er mwyn deall y galw sydd am wasanaethau... deall effaith ac

effeithiolrwydd gweithgarwch, ac adnabod unrhyw fwlch ac unrhyw feysydd ar gyfer datblygu. Mae'r Bwrdd yn gweithio ar ddatblygu "memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng asiantaethau partner a'r...Uned Treisio a Throseddau Rhywiol".

## Siarad a gwranddo!

Roedd yr Wythnos Genedlaethol Diogelu yn gyfle pwysig i sôn wrth bobl am y Bwrdd ac am y gwaith y mae ymarferwyr diogelu'n ei wneud. Roedd y Bwrdd am gael adborth gan ddinasyddion a darparwyr ynghylch datblygu polisi ac ynghylch newidiadau posibl i ddulliau ymarfer. Dywedodd llefarydd fod cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu "er mwyn ei gwneud yn bosibl ymgysylltu â'r cyhoedd" a hyrwyddo trefniadau diogelu.

## Mae grym mewn gwybodaeth

Mae Bwrdd Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn dadansoddi gwybodaeth o'i archwiliadau "er mwyn gweld a yw pob asiantaeth statudol yn perfformio'n dda ac yn diogelu pobl yn effeithiol". Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cael gwybod am adroddiadau lleol a chenedlaethol perthnasol.

## Sut y mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithredu mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'u hamcanion

Dylai'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu er mwyn hybu cydweithredu adlewyrchu blaenoriaethau'r Byrddau. Oherwydd nad yw pob un o'r Byrddau Rhanbarthol wedi mynd i'r afael yn eu hadroddiadau blynyddol â "sut" y maent wedi cydweithredu, gallwn ddatgan eu bod yn cydweithredu ag amrywiaeth o gyrff ac â'i gilydd trwy gyfarfodydd ar gyfer y Rheolwyr Busnes, trwy gyfarfodydd ar gyfer y Byrddau Plant ac Oedolion yn yr un ardal ddiogelu, ac yn ddiweddar trwy gyfarfodydd ar gyfer Cadeiryddion. Ceir parodrwydd i gyfuno adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth neu gynnyrch penodol a allai gyflawni'r nod sy'n gysylltiedig â sicrhau bod pawb yn dysgu ac yn elwa.

Yn y negeseuon ebost dychmygol canlynol, rydym yn dangos sut y gallai pob Bwrdd ddisgrifio sut y mae wedi cydweithredu'n ymarferol.

**At: Y Darllenydd**

**Cc: Gweinidogion**

**Oddi wrth: Caerdydd a'r Fro**

**Pwnc: Cydweithredu**

Mae cydweithredu wedi bod yn digwydd gyda Byrddau Rhanbarthol eraill er mwyn sicrhau dull cadarn o ymdrin â phroses y Panel Adolygiadau Ymarfer Plant. Bu'r Panel ac is-grŵp (yn ein Bwrdd Rhanbarthol ni) yn cydweithredu'n agos â Thîm Partneriaeth Gymunedol Caerdydd wrth baratoi Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Dynladdiad Domestig. Llwyddwyd i greu cysylltiadau â Bwrdd Diogelu Darlington er mwyn rhannu enghreifftiau o setiau data amlasiantaeth. Rydym hefyd mewn cysylltiad â Barnsley sydd am ddefnyddio'r Protocol ar gyfer Salwch Ffug a Chyflyrau Cysylltiedig. Cawsom ein cynrychioli yn nigwyddiadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, gan gynnwys ei gynhadledd *Diogelu mewn Chwaraeon*.

Mae'n bosibl bod y neges ebost hon ac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrthi'n cynnwys deunydd cyfrinachol, ac maent at ddefnydd derbynnydd y neges yn unig.

 Peidiwch ag argraffu'r e-bost hwn oni bai bo rhaid. *Please don't print this e-mail unless you really need to.*



### WYDDECH CHI?

Gall coalisiynau, rhwydweithiau, mudiadau, cyngreiriau, cyllid ar y cyd, mentrau cyd-ddylanwadol ac ymgyrchoedd ddeillio o'r cwestiwn canlynol: sut y bydd plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed yn elwa o'r hyn yr ydym yn ei wneud?

**At: Y Darllenydd****Cc: Gweinidogion****Oddi wrth: Cwm Taf****Pwnc: Cydweithredu**

Mae cydweithredu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghyd â'r agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ac adolygiad ar y cyd o wasanaeth cam-drin domestig y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Mae gwaith gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu at asesiad Cwm Taf o anghenion y boblogaeth. Rydym wedi bod yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru ar ganllawiau statudol; hyfforddiant ar gyfer Adolygwyr Ymarfer Plant ac Oedolion; llyfrgell o adnoddau ar-lein ynghylch caethwasiaeth fodern; pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer Byrddau; Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i Gymru; a Rhwydwaith y Ddeddf Galluedd Meddyliol / Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid. Caiff y Bwrdd ei gynrychioli ar Ford Gron y Comisiynydd Plant ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; mae'n gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac Arolygiaeth Gofal Cymru yng nghyswllt plant a gaiff eu lleoli y tu allan i ardal ddiogelu Cwm Taf.

Mae'n bosibl bod y neges ebost hon ac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrthi'n cynnwys deunydd cyfrinachol, ac maent at ddefnydd derbynnydd y neges yn unig.



Peidiwch ag argraffu'r e-bost hwn oni bai bo rhaid. *Please don't print this e-mail unless you really need to.*

**At: Y Darllenydd****Cc: Gweinidogion****Oddi wrth: Gwent****Pwnc: Cydweithredu**

Rydym wedi rhestru'r cyrff allweddol a gaiff eu cynrychioli ar y Bwrdd Rhanbarthol yn ogystal â'r cyrff arweiniol yn y pum ardal awdurdod lleol: Addysg, Gwasanaethau Plant ac Oedolion, darparwyr tai statudol a gwasanaethau troseddau ieuencid. Mae gennym gysylltiadau gweithio cryf â'r Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda Phanel Dinasyddion Gwent, plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r sawl sydd wedi goroesi.

Mae'n bosibl bod y neges ebost hon ac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrthi'n cynnwys deunydd cyfrinachol, ac maent at ddefnydd derbynnydd y neges yn unig.



Peidiwch ag argraffu'r e-bost hwn oni bai bo rhaid. *Please don't print this e-mail unless you really need to.*

**At: Y Darllenydd****Cc: Gweinidogion****Oddi wrth: Canolbarth a Gorllewin Cymru****Pwnc: Cydweithredu**

Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, gan drafod ein gwaith a chynorthwyo'r broses o ddatblygu Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol. Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, y mae'r Byrddau Rhanbarthol yn rhannu cynlluniau blynyddol ag ef, er mwyn adnabod cyfleoedd posibl i gydweithredu. Rydym hefyd yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n adolygu trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant ynghylch diogelu; gydag Arolygiaeth Gofal Cymru wrth iddi adolygu ymarfer diogelu oedolion; yr Ymchwiliad Annibynnol i Gamdrin Plant yn Rhywiol; Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru; a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Maent yn ystyried sut y gellid sicrhau bod y broses adolygu ymarfer yn cyd-fynd yn well â'r broses ar gyfer Adolygiadau Dynladdiad Domestig. Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda'r prosiect Gwella i sefydlu "system o amgylch y plentyn, sy'n seiliedig ar drawma", yn fwyaf penodol yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae'n bosibl bod y neges e-bost hon ac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrthi'n cynnwys deunydd cyfrinachol, ac maent at ddefnydd derbynnydd y neges yn unig.

 Peidiwch ag argraffu'r e-bost hwn oni bai bo rhaid. *Please don't print this e-mail unless you really need to.*

**At: Y Darllenydd****Cc: Gweinidogion****Oddi wrth: Gogledd Cymru****Pwnc: Cydweithredu**

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Prif Grwner i ystyried rhai o'r themâu arwyddocaol a oedd yn deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Cadarnhaodd y gwaith hwnnw ein hymdeimlad bod nifer cynyddol o bobl yn "huanesgeuluso" yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'i ddirprwy er mwyn ystyried sut y mae ein blaenoriaethau'n cyd-fynd â'i gilydd; ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Cafodd y gwaith ymchwil a gomisiynwyd ganddo ynghylch plant sy'n cael addysg yn y cartref ei groesawu, o gofio'r cynnydd a fu yn nifer y plant sy'n cael addysg yn y cartref yn y rhanbarth hwn. Gwnaethom rannu ein dadansoddiad o anghenion o ran hyfforddiant â Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'r bwriad o ddatblygu fframwaith hyfforddiant ynghylch diogelu; ac rydym wedi bod yn gweithio gydag ymarferwyr diogelu Gorllewin Sir Gaer i ystyried materion trawsffiniol sy'n ymwneud ag ymarfer.

Mae'n bosibl bod y neges e-bost hon ac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrthi'n cynnwys deunydd cyfrinachol, ac maent at ddefnydd derbynnydd y neges yn unig.

 Peidiwch ag argraffu'r e-bost hwn oni bai bo rhaid. *Please don't print this e-mail unless you really need to.*

**At: Y Darllenydd****Cc: Gweinidogion****Oddi wrth: Bae'r Gorllewin****Pwnc: Cydweithredu**

Mae gennym rwydweithiau mawr o sefydliadau, mudiadau, partneriaethau a strwythurau er mwyn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi mabwysiadu fframwaith adrodd ynghylch partneriaethau, sy'n galluogi pob partner i dynnu sylw'r Byrddau at faterion perthnasol. Yn ei dro mae hynny'n cyfyngu ar y dyblygu sy'n digwydd, mae'n fodd i ymwneud â blaenoriaethau pob partner, ac mae'n dylanwadu ar ein cylch cynllunio blynyddol.

Mae'n bosibl bod y neges ebost hon ac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrthi'n cynnwys deunydd cyfrinachol, ac maent at ddefnydd derbynnydd y neges yn unig.



Peidiwch ag argraffu'r e-bost hwn oni bai bo rhaid. *Please don't print this e-mail unless you really need to.*

## Unrhyw geisiadau am wybodaeth benodedig y mae'r Byrddau Diogelu wedi'u gwneud dan adran 137(1)

Dim ond Canolbarth a Gorllewin Cymru a wnaeth gais dan adran 137(1) i ddarparwr gofal ryddhau gwybodaeth er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gwblhau Adolygiad Ymarfer Oedolion. Daeth y wybodaeth i law yn dilyn y cais.



### WYDDECH CHI?

Ddwywaith yn unig y mae ceisiadau dan adran 137(1) wedi'u gwneud ers 2016

## Cyflawniadau'r Byrddau Diogelu yn ystod y flwyddyn

Nid yw'n amlwg a oes gan bob un o'r Byrddau Rhanbarthol ddealltwriaeth gyffredin o'r ffordd orau o ddangos cyflawniadau ym maes diogelu. Ni roddodd dau o'r Byrddau unrhyw sylw o gwbl i'r pwnc. Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at gamgymeriadau / rhwystrau sydd wedi atal cynnydd, oherwydd bod gwersi'n cael eu dysgu ohonynt a bod y Byrddau Rhanbarthol dan sylw'n datblygu ymatebion mwy effeithiol.

Nododd un o'r Byrddau Rhanbarthol nad oedd Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i gyhoeddi o ganlyniad uniongyrchol i gais gan y plentyn. Fodd bynnag, mae angen gorchymyn gan y llys oherwydd mae'r rheoliadau statudol yn datgan mai un o swyddogaethau'r Byrddau yw "trefnu bod yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer ar gael i'r cyhoedd" (4 (5) (l)).

### Caerdydd a'r Fro

- Mae'n arwain yr adolygiad o Weithdrefnau Amddiffyn Oedolion a Phlant Cymru Gyfan – gan gydnabod bod "angen datblygu'r" cynlluniau blynyddol ar gyfer 2017-18
- Mae'n gwybod nad yw rhai agweddau ar ymarfer diogelu wedi cael y sylw "sydd ei angen"
- Mae'n ymwneud â datblygu'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn dilyn cyflwyniad a roddwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2017
- Cynhaliodd lechyd Cyhoeddus Cymru ail archwiliad amlasiantaeth o blant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol
- Lansiodd bolisi diogelu ar gyfer Mosgiau a Lleoliadau Astudiaethau Islamaidd eraill yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu mewn partneriaeth â Chyngor Mwslimaidd Cymru. Mae llwyddiant y gwaith ymgysylltu hwn yn sail yn awr ar gyfer cynnwys y cymunedau mewn datblygiadau tebyg ym maes diogelu oedolion, ac mae arweinwyr lleol wedi croesawu hynny.

## Cwm Taf

- Atgyfeiriodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ddyn a oedd yn bwriadu dychwelyd i fyw gyda'i bartner ar ôl dedfryd o garchar a gafodd am achosi niwed iddi. Bu Eiriolwr Trais Domestig yn gweithio gyda'i bartner ac yn ei chynorthwyo i ymbellhau oddi wrth y berthynas, sef rhywbeth yr oedd yn benderfynol unwaith eto o'i wneud.
- Cafodd ganmoliaeth am hybu cyswllt rhwng tad â phroblemau iechyd meddwl a'i blant. Cafodd gweithdrefnau amddiffyn plant eu cychwyn pan dynnodd meddyg teulu sylw'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth at ddirywiad yng nghyflwr iechyd meddwl y dyn.
- Drwy ei waith ar siwrnai bywyd gyda brodyr a chwiorydd ag anghenion dysgu ychwanegol, medrodd y sawl dan sylw ddeall proses y llys a'r penderfyniadau a oedd wedi'u gwneud yn eu cylch, a bu modd iddynt fynegi eu dymuniadau a'u teimladau am gyswllt yn y dyfodol â'u teulu naturiol.
- Pan ofynnodd cartref nyrsio am awdurdodiad Amddifadu o Ryddid ar gyfer dynes â "dementia difrifol", datgelwyd ei chyfoeth mawr. Er nad oedd gan neb awdurdod i reoli'r cyfoeth hwnnw ar ei rhan, roedd perthynas yn dwyn arian o'i chyfrif banc. Trefnodd yr asesydd fod gwasanaethau eiriolwr ar gael, ymgwymerodd cyfreithiwr â'r gwaith o reoli materion ariannol y ddynes, sicrhodd y tîm diogelu fod ei harian yn ddiogel a chafodd y perthynas ei arestio.



## Gwent

- Mae wedi diwygio cylch gorchwyl is-grwpiau'r Bwrdd.
- Mae wedi cyfieithu ei wefannau'n llawn.
- Mae wedi bod yn cydweithredu â'r bartneriaeth ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn darparu cynhadledd.
- Mae wedi llunio cynllun strategol y Bwrdd.
- Mae wedi rhannu gwersi sydd i'w dysgu o adolygiadau ymarfer.
- Mae wedi creu clipiau am ddiogelu ar gyfer amryw gyfryngau, a phecynnau hyfforddiant a gymeradwywyd gan y Bwrdd.
- Mae wedi cyfethol aelod o Banel Dinasyddion Gwent yn aelod o'r Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu.
- Mae wedi symleiddio'r broses ar gyfer dynladdiad domestig ledled Gwent.
- Mae'n rhannu gwybodaeth ar draws pob agenda ddiogelu yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Diogelu Lleol ac yn nigwyddiadau'r Fforwm Ymarferwyr.
- Mae wedi datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar y cyd ar gyfer y ddau Fwrdd.
- Mae'n cael cyngor gan ymarferwyr rheng flaen, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.

## Canolbarth a Gorllewin Cymru

- Cynhaliodd ddigwyddiad yn ystod mis Chwefror 2018 ar gyfer y ddau Fwrdd Rhanbarthol, lle trafodwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant ym Mhowys, gyda'r bwriad o'u hatal rhag digwydd eto.
- Yn dilyn marwolaeth plentyn a gâi addysg yn y cartref, cafodd ei sbarduno i ddadlau dros gyflwyno deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cael eu diogelu'n well ac er mwyn sicrhau bod y nifer bach o blant nas gwelir yn cael eu gweld.
- Arweiniodd marwolaeth person ifanc a oedd yn derbyn gofal at Adolygiad Ymarfer Estynedig, a dynnodd sylw at yr angen i wella cynlluniau gofal amlasiantaeth ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal. O ganlyniad i achos y person ifanc hwn ac eraill, comisiynodd y Bwrdd waith ymchwil gan Brifysgol Caerdydd ynghylch hunanladdiadau tebygol yn y rhanbarth. Esgorodd hynny ar ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth, a chafodd adroddiad cryno i ymarferwyr ei lansio yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu: mae pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael i blant ac oedolion ifanc agored i niwed, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch ble y gallant gael help, a phwysigrwydd hybu lles meddwl cadarnhaol, yn ganfyddiad gwerthfawr.
- Aeth i'r afael â chamdriniaeth a chamfanteisio sy'n digwydd ar-lein, yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu 2017. Ceisiodd cynhadledd a gefnogwyd gan Heddlu Dyfed-Powys godi ymwybyddiaeth o amryw ddulliau o gam-drin plant ac oedolion ac o gamfanteisio arnynt.
- Rhoddodd flaenoriaeth i'r angen i gysylltu â phobl ifanc drwy'r Bwrdd Iau Diogelu Plant, grwpiau ieuencid a gwasanaethau ieuencid – a dysgu am eu blaenoriaethau nhw. Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys ymgyrch codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio gyda Hafan Cymru i dynnu sylw at effaith camdriniaeth ddomestig ar blant.
- Yn sgil llwyddiant y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, teimlwyd bod angen ymestyn y gwaith o gynllunio ar gyfer yr wythnos ddiogelu nesaf fel ei fod yn cael ei gyflawni ar lefel gorfforaethol mewn sefydliadau, ac yn allanol gydag asiantaethau arbenigol yn y trydydd sector.

## Gogledd Cymru

- Cymerodd gamau gweithredu ar ôl i dri Adolygiad Ymarfer Oedolion amlygu achosion o hunanesgeuluso. Cafodd ymarferwyr â phrofiad o weithio gyda phobl a oedd yn eu hesgeuluso eu hunain eu gwahodd i rannu eu dealltwriaeth ac i ddylanwadu ar ymarfer. Mae astudiaeth achos yn adlewyrchu'r dull gweithredu a ddeilliodd o'r camau gweithredu hynny: gwrthododd cyn-filwr a oedd wedi dioddef anaf i'w ben, yr oedd ganddo epilepsi, problemau symud ac anhwylder straen wedi trawma ac a oedd yn camddefnyddio alcohol, dderbyn unrhyw gymorth parhaus, er iddo gael cymorth i ymdopi â sawl argyfwng. Cafodd ei annog gan weithiwr cymdeithasol i dderbyn help. Cafodd offer Teleofal eu gosod a dechreuodd cynorthwywyr alw heibio iddo bob dydd er mwyn ei helpu i baratoi prydau bwyd a'i gymell i gymryd ei feddyginiaeth. Cytunodd i gael ei gyfeirio at y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau.
- Cytunwyd ar ddull rhanbarthol o wella dulliau o ddarganfod achosion lle mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar blant, a chytunwyd ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol. Aeth ati i benodi gweithiwr yr NSPCC ar gyfer achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffrind beirniadol i'w raglen waith.
- Tynnodd astudiaeth achos sylw at amgylchiadau merch yr oedd ei phresenoldeb yn yr ysgol yn wael ac a oedd yn profi anghysondeb yn y modd y câi ei magu. Bu gweithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'r ferch a'i rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth yw'r arwyddion sy'n dangos bod rhywun yn defnyddio cyffuriau. Cyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru Rybudd Cypio Plentyn, oherwydd dylanwad dyn hŷn a oedd yn cyflenwi cyffuriau i'r plentyn. Mae astudiaethau achos y ddau Fwrdd yn amlygu rôl hollbwysig cydberthnasau proffesiynol llawn ymddiriedaeth, ac ymarfer parhaus a chyson.

## Bae'r Gorllewin

- Mae wedi dysgu o'r gwersi a nodwyd drwy adolygiad o ymchwiliadau [clinigol] a gynhaliwyd yn y bwrdd iechyd. Deilliodd y rheini o ymchwiliad ac atgyfeiriad diogelu gan Heddlu De Cymru, proses farnwrol, ac achos o gyfeirio nifer o nyrsys at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Mae wedi datblygu fframwaith adrodd ynghylch partneriaethau er mwyn galluogi'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i rannu gwybodaeth a diweddariadau ynghylch Adolygiadau Dynladdiad Domestig.
- Tynnwyd sylw at y gost sylweddol sy'n gysylltiedig â'r ymyriadau meddygol ar gyfer asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid.
- Mae dau garchar, sefydliad troseddwr ifanc a chartref diogel i blant yn ardal Bae'r Gorllewin, felly mae Llywodraethwyr o Garchar y Parc a Charchar Ei Mawrhydi Abertawe yn aelodau o'r Bwrdd.
- Llwyddwyd i leihau nifer y plant a nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cadw dros nos mewn gorsafoedd heddlu, drwy gydweithredu â chartrefi plant a gofalwyr maeth lleol.
- Mae wedi sicrhau bod hyfforddiant gorfodol ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei ddarparu ar draws asiantaethau.
- Mae'n cael gwybodaeth am farwolaethau annisgwyl plant.
- Mae wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth ynghylch recriwtio pobl ifanc i werthu cyffuriau a chamfanteisio arnynt.



## WYDDECH CHI?

Bydd gofyn y cwestiwn canlynol i gydweithwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd yn helpu i wahaniaethu rhwng cyflawniadau pwysig a chamau i fireinio proses: "Pa dri pheth yr ydym wedi'u gwneud sydd wedi – ac a fydd yn – dylanwadu fwyaf ar fywydau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n hysbys i wasanaethau diogelu?"

## I ba raddau y mae aelodau'r Byrddau Diogelu wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau

Dyma'r sylw a wnaethom yn ein hadroddiad yn 2016-17: "Ni wyddys a wnaeth asiantaethau wahodd cydweithwyr o wahanol sectorau ai peidio i gydysgrifennu'r asesiadau o'u cyfraniadau." Eleni, rydym am nodi bod asiantaethau unigol yn dal i asesu eu cyfraniadau eu hunain a/neu fod barn yn cael ei llunio ar sail (i) "cymorth" i'r Byrddau Rhanbarthol; (ii) rolau o fewn y Byrddau Rhanbarthol, er enghraifft rôl yr is-gadeirydd; (iii) aelodaeth o is-grwpiau'r Byrddau Rhanbarthol a rolau cadeiryddion neu is-gadeiryddion yr is-grwpiau hynny; (iv) rolau fel Adolygwyr Ymarfer Plant / Oedolion a/neu aelodau o banel; (v) rolau fel cyflwynwyr gwybodaeth i'r Byrddau; a (vi) cyfranogwyr mewn digwyddiadau dysgu a digwyddiadau datblygu, er enghraifft. Nid ydym am atgynhyrchu'r rhain. Hoffem nodi, fodd bynnag, fod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei adroddiad ynghylch Gwasanaethau Plant Powys yn datgan bod presenoldeb a gwaith ymgysylltu wedi bod yn "anghyson" a bod Powys wedi bod yn amharod ar y dechrau i fod yn rhan o Fwrdd Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yr hyn yr ydym wedi'i nodi yw enghreifftiau o gyfraniadau asiantaethau unigol, neu asiantaethau ar y cyd â'i gilydd, at ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion – asiantaethau sy'n cydnabod pwysigrwydd sylwgarwch proffesiynol a chydberthnasau personol. Gall cyflwyno strwythurau a phrosesau cyfryngol, heb gyfeirio at y goblygiadau i bobl sy'n hysbys i weithwyr diogelu proffesiynol, fod yn llai llwyddiannus o safbwynt ennyn cefnogaeth pobl. Fel y nododd Jenny Williams, Cadeirydd Bwrdd Plant Gogledd Cymru, "Gan edrych yn ôl...rydym wedi cael cyfnod o sefydlogrwydd ac mae hynny wedi talu ar ei ganfed yn y meysydd gwaith ac o ran ein heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, yn aml mae'n hawdd anghofio bod yn rhaid i ni fynd ymhellach na hynny a chofio bod plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth galon peth o'r gwaith mwyaf sensitif a dwys yr ydym yn ei wneud fel asiantaethau diogelu. Yr hyn sydd yn aros gyda mi yw'r straeon twymgalon yr ydym yn freintiedig o'u clywed...."



### WYDDECH CHI?

Mae'r diwylliannau diogelu gorau yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cael eu harwain yn dda. Maent yn adeiladu ar ddiben a gwerthoedd cyffredin, ac maent yn barod i ennill ymddiriedaeth, tracio canlyniadau a chaniatáu i staff arfer disgrisiwn.

### Caerdydd a'r Fro

Mae pob un o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd yn cyfrannu i fwletin ynghylch diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, ac mae ein hasiantaethau partner yn rhannu adroddiadau arolygiadau perthnasol yn rheolaidd.

### Cwm Taf

Rydym yn cynnig cyfleoedd i blant ac oedolion gymryd rhan yn ein gwaith. Dylai unrhyw un a fyddai'n hoffi cael eu cynnwys yn ein gwaith gysylltu â'n Huned Rheoli Busnes. Mae ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn gartref i'r heddlu, y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol ac ymarferwyr cam-drin domestig, sy'n hwyluso trafodaethau. Mae ein hastudiaethau achos yn adlewyrchu ein diddordeb yn yr effaith y mae ymyriadau diogelu'n ei chael ar fywydau pobl.

### Gwent

Rydym wedi datblygu, adolygu a hwyluso rhaglen gyffredinol ein Bwrdd o hyfforddiant. Mae un o'r eitemau sefydlog ar ein hagenda, sef cyfle i drafod y newyddion diweddaraf, yn golygu bod y Bwrdd yn gwybod beth sy'n digwydd.

## Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae archwiliad o wserau puwso, y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi'i gynnal ar ein rhan, yn golygu nad yw achosion yn cael eu cyfeirio fel mater o drefn mwyach at y tîm diogelu oedolion. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gwella'r modd y mae'n ymateb i ddigwyddiadau a dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, lle mae lefel y risg yn uchel, sydd wedi arwain at gynydd mewn cyfraddau erlyn; mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi arwain y gwaith o ddatblygu dogfen amlasiantaeth sy'n cynnwys canllawiau ynghylch trothwyau diogelu oedolion; mae Cyngor Sir Penfro wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i ddiogelu plant a phobl ifanc sydd wedi gweld camdriniaeth ddomestig, drwy sicrhau bod ysgolion yn cael gwybod yn brydlon; cafodd yr heriau i Gyngor Sir Powys, a oedd yn deillio o'r diffygion a nodwyd mewn gwasanaethau plant yn ystod arolygiad yn 2017, eu dwysáu gan bresenoldeb ysbeidiol y staff ar bob lefel, a'n harweiniodd at y casgliad bod Cyngor Sir Powys yn bartner "anfodlon" yn nhrefn gydweithredu'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant; ar y llaw arall, mae Tîm Gwasanaethau Oedolion Powys wedi cyfrannu at ddogfen ynghylch trothwyau; arweiniodd Cyngor Sir Ceredigion "raglen eang o godi ymwybyddiaeth ar draws y sir i gyd" yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu; mynegodd y Cyfarwyddwyr Addysg, Rhanbarthol bryder ynghylch y niferoedd cymyddol o ddisgyblion sy'n cael eu tynnu allan o ysgolion er mwyn cael addysg ddewisol yn y cartref; Sir Benfro a Cheredigion oedd yr ail ardaloedd yng Nghymru i gyflwyno Mynegai Cydraddoldeb Stonewall\*; mae Powys wedi cyflwyno'r rhaglen gwrth-fwllo KiVa\*\* mewn ysgolion; mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu hyfforddiant cyfreithiol wedi'i deilwra ar gyfer penaethiaid; ac mae Comisiynwyr Rhanbarthol wedi ceisio sicrhau bod pob contract newydd yn cynnwys cymal sy'n nodi bod disgwyl i ddarparwyr gydweithredu mewn unrhyw adolygiadau diogelu yn y rhanbarth.

\* <https://www.stonewall.org.uk/workplace-equality-index> (cyrchwyd 1 Awst 2018)

\*\* <http://www.kivaprogram.net/wales> (cyrchwyd 1 Awst 2018)



### Gogledd Cymru

Rydym wedi sicrhau bod Burdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi darparu gwybodaeth fel mater o drefn am ward Tawel Fan, ac yn ddiweddar am uned iechyd meddwl arall yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae ein gwaith gyda'r Prif Grwner a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn golygu ein bod yn rhannu blaenoriaethau diogelu tebyg. Rydym wedi rhannu ein dadansoddiad o arghenion o ran hyfforddiant â Gofal Cymdeithasol Cymru. Cafodd dull un awdurdod lleol o ymdrin â phlant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt ei ddisgrifio gan adolygwyr annibynnol fel dull "arloeisol". Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn darparu archwiliadau gan gymheiriaid o waith diogelu. Bu Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda siopau Dixons Carphone i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y rhyngwyaed. Rydym yn annog diddordeb mewn pynciau'n ymwneud â diogelu, drwy gyhoeddi sesiynau briffio 7 munud ar ein gwefan.

### Bae'r Gornllewin

Diogelu yw'r brif blaenoriaeth, ac mae'n rhan annatod o'r Cynllun Corfforaethol. Mae gennym fframwaith ymarfer sy'n seiliedig ar wneud yr hyn sy'n bwysig, er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl sy'n hysbys i wasanaethau diogelu'n cael eu clywed, a'u bod wrth wrâidd ein dull o weithredu. Bu Castell-nedd Port Talbot yn gweithio gyda'r heddlu yng nghanol tref Castell-nedd yn ystod yr wythnos Genedlaethol Diogelu er mwyn hybu presenoldeb gwell yn yr ysgol. Buriad y gwaith hwnnw oedd tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng triwantiath a diogelu.

## Asesiad o sut y defnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau neu'u canlyniadau

Mae cyfanswm gwariant y Byrddau Rhanbarthol yn amrywio o £133,842.00 i £355,000.00. Rydym yn dal ymhell o allu darparu asesiad manwl oherwydd y wybodaeth amrywiol a ddarperir gan y Byrddau Rhanbarthol. Er enghraifft, mae Caerdydd a'r Fro a Gwent yn nodi cost adolygiadau ymarfer (£39,000.00 yn y naill ac £8,000.00 yn y llall); mae (i) Canolbarth a Gorllewin Cymru a (ii) Gogledd Cymru yn nodi costau (i) teithio / lleoliadau a (ii) teithio (£3,795.00 yn y naill a £2,496.11 yn y llall); mae Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf yn cyfeirio at hurio ystafelloedd / lleoliadau a safleoedd (£2,956.83 yn y naill a £6,360.00 yn y llall); mae Bae'r Gorllewin wedi defnyddio £36,316 o gronfeydd wrth gefn; cyllideb Gwent ar gyfer rhaglenni hyfforddiant yw £22,000.00; a gwariodd Canolbarth a Gorllewin Cymru £26,200.00 "ar gomisiynu gwasanaethau a/neu hyfforddiant, oedd yn cynnwys ymchwil...i hunanladdiadau tebygol, ymgynghori â Phobl yn Gyntaf Sir Benfro ar yr adroddiad blynyddol, hwyluso Bwrdd Iau CADW a gwasanaeth eiriol rhanbarthol ar gyfer pobl ifanc Tros Gyfnal a hyfforddiant pwrpasol ar weithio gyda theuluoedd anodd, gochelgar a heriol."

Yr Unedau Busnes sy'n cael y rhan fwyaf o'r cyllid. Mae'r tablau isod yn dangos y modd y mae cyllid yr Unedau Busnes yn amrywio ar draws yr ardaloedd Byrddau Diogelu.

Cafwyd y datganiad canlynol yn adroddiadau blynyddol tri o'r Byrddau Rhanbarthol, heb nodi'r ffynhonnell:

"It is acknowledged that resources used to support the work of the Regional Safeguarding Board are not confined or restricted to financial contributions from statutory partner agencies. The Regional Safeguarding Board Chairs, Executive Board Members, Sub Group Chairs and members provide a significant amount of time to support the Board and its work. This is often in addition to their identified professional roles and day to day responsibilities. The variable and diverse nature of the Board's work makes this difficult to report on within a quantifiable and measurable resource context and is not always obviously visible to other professionals and agencies. The process, management and publication of Child and Adult Practice Reviews, the development of regional protocols and policies are all examples of projects that require high levels of professional input, knowledge and expertise."



### WYDDECH CHI?

Nid yw gwariant yn dangos dim am y berthynas cost:budd

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bae'r Gorllewin yn cadarnhau bod cyllid awdurdodau lleol yn cyfateb i 60% a bod cyllid y sector iechyd yn cyfateb i 25%. Ni wyddys a yw pob partner cyllido statudol yn annog y Byrddau Rhanbarthol i

- i. sicrhau bod y cynlluniau blynyddol yn cael eu llunio gan ystyried y dyfodol a rhoi sylw i'r tymor hir?
- ii. ystyried pa adnoddau fydd yn cael eu defnyddio os nad yw Bwrdd yn cyrraedd y targedau a nodwyd mewn cynlluniau blynyddol?
- iii. cysylltu sgiliau a gwybodaeth unigolion penodol â thasgau penodol?
- iv. buddsoddi mewn gwybodaeth newydd er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol?
- v. cysylltu cyllid â chanlyniadau ar wahanol lefelau, ee y plentyn / oedolyn sy'n wynebu risg; y bobl yr honnir eu bod yn gyfrifol am y niwed; y gwasanaethau a'r gweithlu; y comisiynwyr; yr agenda genedlaethol?

#### Cyllid ar gyfer y Byrddau Rhanbarthol yn **2016-17**

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyllid cyffredinol	Yr Uned Fusnes
Caerdydd a'r Fro	-	-
Cwm Taf	£176,010.00	-
Gwent	£355,000.00	£289,000.00
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£110,058.46	£ 73,343.41
Gogledd Cymru	£218,562.00	£173,148.00
Bae'r Gorllewin	£185,323.00	£138,023.00

#### Cyllid ar gyfer y Byrddau Rhanbarthol yn **2017-18**

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyfanswm gwariant	Yr Uned Fusnes
Caerdydd a'r Fro	133,842.27	88,429.67
Cwm Taf	191,282.00	165,192.00
Gwent	355,000.00	289,000.00
Canolbarth a Gorllewin Cymru	134,642.00	92,083.00
Gogledd Cymru	218,568.53	123,275.10
Bae'r Gorllewin	185,326.00	-

## Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y cyflawnodd y Byrddau Diogelu eu swyddogaethau, fel y dangosir gan ddadansoddiad o achosion y maent wedi ymdrin â nhw, ac unrhyw newidiadau y maent wedi'u rhoi ar waith

Mae'r gwersi sy'n deillio o adolygiadau ymarfer, Adolygiadau Dynladdiad Domestig, gwaith ymchwil, archwiliadau a data'r Byrddau Rhanbarthol i gyd yn ffynonellau cyfoethog o themâu. Nododd pedwar o'r Byrddau Rhanbarthol y macro-themâu, a chyflwynodd Bwrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bwrdd Gogledd Cymru astudiaethau achos i ddangos themâu.



### WYDDECH CHI?

Pe bai Byrddau Rhanbarthol yn tracio dros gyfnod o amser y newidiadau sydd wedi deillio o ddigwyddiadau a themâu penodol, byddent mewn sefyllfa gref i nodi newidiadau effeithiol

	<b>Themâu'n ymwneud â phlant</b>	<b>Newidiadau a roddwyd ar waith</b>
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	<p>a. Gweithdrefn gwyno</p> <p>b. Adroddiadau / arolygiadau sefydliadol perthnasol</p>	<p>a. Alinio hynny â'r weithdrefn ar gyfer oedolion</p> <p>b. Rhannu a thrafod y rhain yn y Bwrdd</p>
<b>Cwm Taf</b>	<p>a. Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd wedi'u cofrestru yn flaenorol</p> <p>b. Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd hefyd yn blant sy'n derbyn gofal</p> <p>c. Plant o gymunedau penodol</p>	<p>a. Monitro'r plant hynny</p> <p>b. Cydnabod yr amgylchiadau eithriadol, ac felly'r broses ar gyfer achosion heriol yn berthnasol iddynt</p> <p>c. Hyfforddiant ynghylch Trais ar sail Anrhydedd; a gweithio gyda chymunedau Teithwyr – a monitro</p>
<b>Gwent</b>	<p>a. Ymchwil ynghylch plant a phobl ifanc yn cadw'n ddiogel</p> <p>b. Gweithio gyda theuluoedd anghydweithredol</p> <p>c. Iechyd meddwl pobl ifanc</p>	<p>a. Cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein yn flaenoriaeth strategol;</p> <p>b. Adolygu ac atgyfnerthu canllawiau</p> <p>c. Datblygu cwrs hyfforddiant gyda gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol</p>
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	<p>a. Hybu her effeithiol ac atebolrwydd proffesiynol</p>	<p>a. Cryfhau cymalau a geiriad contractau comisiynu â darparwyr gofal er mwyn gorfodi darparwyr i gydweithredu ag adolygiadau diogelu; gwella gwaith cyfathrebu a rhannu gwybodaeth;</p> <p>b. Defnyddio "Arwyddion Diogelwch", ee cafodd pâr nad oeddent yn fodlon ymwneud ag apwyntiadau cyn geni yn ystod dau feichiogrwydd (roedd eu plentyn cyntaf wedi'i fabwysiadu gan deulu arall a bu farw eu hail blentyn) eu hannog i weithio gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r fydwraig ac i adnabod eu cryfderau a'u hanawsterau. Maent yn ymwneud â gwasanaethau'n weithredol erbyn hyn ac yn derbyn bod angen cymorth ar eu teulu</p>
<b>Gogledd Cymru</b>	<p>a. Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am dros 18 mis;</p> <p>b. Rhieni yr oedd sgiliau rhianta eu rhieni nhw'n wan</p>	<p>a. Sicrhau sail resymegol glir; gweithwyr proffesiynol yn cael eu hatgoffa bod eu barn yn cyfrannu i asesiadau risg a phrosesau gwneud penderfyniadau; yn cael ei adlewyrchu mewn hyfforddiant ynghylch amddiffyn plant</p> <p>b. Astudiaeth achos gadarnhaol lle medrodd y tîm "Ar Ffiniau Gofal" – a fu'n darparu 15-20 awr o gymorth wythnosol cyn ac ar ôl geni – alluogi i ferch fach a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant aros gyda'i rhieni. Mae'r teulu wedi cytuno i barhau i dderbyn cymorth</p>
<b>Bae'r Gorllewin</b>	<p>Teuluoedd sy'n gyfrifol am anaf annamweiniol i faban ac am gam-drin plentyn yn rhywiol</p>	<p>Sicrhau bod gan deuluoedd wybodaeth am bob cam yn y broses amddiffyn plant; atgoffa gweithwyr proffesiynol i fod yn wylidwrsu a rhoi sylw i hanes plentyn a deinameg ei deulu; a sicrhau bod cleisiau ar y sawl sy'n mynychu'n aml yn esgor ar amheuan</p>

	<b>Themâu'n ymwneud ag oedolion</b>	<b>Newidiadau a roddwyd ar waith</b>
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	<p>a. Gweithdrefn gwyno</p> <p>b. Adroddiadau / arolygiadau sefydliadol perthnasol</p>	<p>a. Alinio hynny â'r weithdrefn ar gyfer plant</p> <p>b. Rhannu a thrafod y rhain yn y Bwrdd</p>
<b>Cwm Taf</b>	<p>a. Oedi yn y broses amddiffyn oedolion</p> <p>b. Adborth gan yr heddlu ynghylch ymchwiliadau troseddol sy'n parhau</p>	<p>a. Archwiliadau'n dangos gwelliannau; ac mae'r sector iechyd wedi dangos bod dogfennau perthnasol yn cael eu cwblhau mewn modd sy'n gyson</p> <p>b. Gwelwyd gwelliant</p>
<b>Gwent</b>	<p>a. Chwilio am Atebolwydd*</p> <p>b. Achosion o gwmpo ymhlith pobl hŷn sy'n wynebu risg</p>	<p>a. Ansawdd gofal yn flaenoriaeth strategol</p> <p>b. Llwybrau a strwythurau adrodd wedi'u halinio â phrotocolau'r bwrdd iechyd</p>
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	<p>a. Hybu her effeithiol ac atebolwydd proffesiynol</p>	<p>a. Cryfhau cymalau a geiriad contractau comisiynu â darparwyr gofal er mwyn gorfodi darparwyr i gydweithredu ag adolygiadau diogelu; gwella gwaith cyfathrebu a rhannu gwybodaeth</p>
<b>Gogledd Cymru</b>	<p>a. Dymuniad rhiant hŷn i letya mab sy'n oedolyn ac sy'n gyfrifol am gamdriniaeth gorfforol / dymuniad y rhiant hŷn i fyw gyda'r mab</p> <p>b. Dyn ag awtistiaeth, sydd wedi dioddef profedigaeth, sy'n byw yn hen gartref y teulu ac y mae oedolion ymosodol a diegwyddor yn dod yn ffrindiau iddo – oedolion y bu'n yfed alcohol gyda nhw</p> <p>c. Dywedodd dynes a oedd yn cael triniaeth iechyd meddwl fel claf mewnol wrth nyrs ei bod mewn perthynas agos â gweithiwr cymorth</p>	<p>a. Cydweithredu ar draws sectorau'n arwain at becyn gofal lefel isel, a oedd yn cynnwys dosbarthu taflenni i gymdogion ynghylch trais domestig ac ynghylch sut i roi gwybod ei fod yn digwydd</p> <p>b. Roedd cynllun amddiffyn a luniwyd yn syth yn cynnwys gwesty lleol caredig a oedd yn adnabod y dyn; trefnwyd lleoliad mewn tref gyfagos, sy'n rhagweithiol o safbwynt cynnwys y dyn yn y gymuned</p> <p>c. Hysbyswyd yr heddlu a'r tîm amddiffyn oedolion, a chafodd y sawl a oedd dan amheuaeth ei wahardd a'i erlyn; cafodd y ddynes gymorth i gyflwyno tystiolaeth yn yr achos llys</p>
<b>Bae'r Gorllewin</b>	<p>a. Preswylwyr ag anableddau dysgu yn cael eu grwpio'n anniogel, a hynny'n arwain at ymosodiad rhywiol; roedd ymateb yr heddlu'n araf ac aeth tystiolaeth fforensig ar goll; a chyfathrebu â pherthnasau yn ystod argyfyngau</p> <p>b. gweithiwr bwrdd iechyd yn cael ei ddyfarnu'n euog o lofruddiaeth – gweithiwr a oedd wedi'i wahardd o'i waith yn dilyn honiadau o ymosod yn rhywiol ar gleifion</p>	<p>a. Asesiadau risg yn ymwneud â chyfaddasrwydd wedi'u seilio ar yr hyn a oedd yn hysbys am hanes preswlydd newydd; preswylwyr newydd wedi'u hystyried gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rheoli lleoliadau; hyfforddiant ar gyfer swyddogion yr heddlu; sylw i waith cyfathrebu</p> <p>b. Prosesau recriwtio; prosesau diogelu; gweithdrefnau adrodd ynghylch digwyddiadau ac uwchgyfeirio; a sylw i brofiad y claf</p>

\* <https://llyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/reports/accountability/?lang=cy> (cyrchwyd 1 Awst 2018)

## Pryd a sut y bachodd plant neu oedolion ar gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Byrddau a sut y cyfrannodd hyn at helpu'r Byrddau i gyflawni eu canlyniadau

Yn adroddiad blynyddol cyntaf y Bwrdd Cenedlaethol (2016), bu i ni sôn bod Cadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol yn ystyried mai "gwaith ar y gweill yw'r broses o ymgysylltu â'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau diogelu yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'n waith sy'n gofyn am dipyn o adnoddau am fod yn rhaid i'r gwaith fod yn barhaus." Yn 2018, mae petruster yn adroddiadau mwyafrif y Byrddau Rhanbarthol ynghylch cyfranogiad ac mae rhai ohonynt yn dal i ganolbwyntio ar y camau paratoi, gyda buddiannau oedolion sy'n hysbys i wasanaethau wedi'u cyfyngu i waith darganfod ffeithiau'n achlysurol. Nid yw cyflwyno pobl newydd i ddeinameg trefniadau gweithio'n fater syml – gall arwain at alwadau newydd a chodi ystyriaethau newydd. Mae'r Byrddau yn ymdrin â chyfranogiad mewn amryw ffyrdd, ac yn gyffredinol nid ydynt yn dangos sut y gwnaethant gynnwys pobl ifanc ac oedolion yn y gwaith o nodi'r materion yr oeddent am fynd i'r afael â nhw, gan chwilio ymysg eu hunain neu y tu hwnt i'w hunain am wybodaeth a sgiliau newydd. Mae rhai o'r Byrddau yn cyfeirio at gyfranogiad gweithwyr proffesiynol, a oedd yn rhywbeth annisgwyl. Fodd bynnag, fel y dengys Canolbarth a Gorllewin Cymru, pan fo'r ymrwymiad wedi'i wneud mae cyfranogiad yn rhywbeth parhaus yn hytrach nag yn rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i gyfnod penodol.



**Caerdydd a'r Fro** Mae'r Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y ddau Fwrdd wedi cyfarfod bedair gwaith ac wedi adolygu a diweddarau ei gylch gorchwyl a'r Strategaeth Gyfathrebu; mae wedi diweddarau ac ailddylunio ei wefan ac wedi lansio llythyr newyddion.



### WYDDECH CHI?

"Participation may be imperfect, may have its drawbacks, but still be better...than doing without it. The problem is not simply who is affected by participation and how, but also who is affected by its absence..."\*

\* Richardson, A (1983) *Participation*. Concepts in Social Policy 1, London: Routledge and Kegan Paul

# CTSB

## CWM TAF SAFEGUARDING BOARD

**Cwm Taf** Mae wedi cyfuno nifer o weithgareddau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r sawl sy'n defnyddio ei wasanaethau drwy gydol y flwyddyn – yn ogystal â gweithwyr proffesiynol – a chynhaliodd ddiwyddiadau yn ystod yr Wythnos Ddiogelu rhwng 13 ac 19 Tachwedd 2017, ee digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn benodol, a oedd yn cynnwys yfed alcohol yn fwy diogel, digartrefedd, iechyd meddwl, perthasoedd iach, materion yn ymwneud â phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol, a pharch. Cymerodd 30 o bobl ifanc ran mewn gweithdy theatr a fu'n archwilio achosion o feithrin perthynas amhriodol ag eraill a chamfanteisio'n rhywiol ar eraill; cyfrannodd y Comisiynydd Plant at gynhadledd i fyfyrwyr ynghylch sut i ymdopi â bywyd pob dydd; a chynhaliwyd diwrnod ynghylch llesiant ar gyfer aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr a gweithwyr proffesiynol. Mae gwefan y Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu; mae'r broses ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion yn cynnwys unigolion a thelueoedd ac yn ystyried eu hadborth; ac mae arolwg ymgynghori blynyddol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth yn cymeradwyo y dylai barhau. Arweiniodd arolwg ynghylch y Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid at ddull o ymdrin â chymorth o ran eiriolaeth, sy'n seiliedig ar gynnig gweithredol, ar gyfer eiriolwyr a pherthnasau sy'n cynorthwyo oedolion nad oes ganddynt alluedd.



**Gwasb**  
Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan  
Gwent-wide Adult Safeguarding Board



South East Wales Safeguarding Children Board  
Working Together For Children

**Gwent** Creodd y Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu gysylltiadau â grwpiau a fforymau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y grŵp mwyaf perthnasol o unigolion gyda phob prosiect y mae'n ymgymryd ag ef. Er enghraifft, cafodd grŵp rhwydwaith rhianta ei wahodd i lunio cynnwys y tudalennau ar gyfer rhieni a gofawyr ar y wefan; ac ymgynghorodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y wefan â gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ar amryw lefelau ynghylch y cynnwys. Cafodd cynhyrchiad drama rhyngweithiol *Go Girls* a *Brothers*, ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, ei gyflwyno mewn ysgolion; a defnyddiwyd gwybodaeth o Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent i lywio'r gwaith o greu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Mae gan y Bwrdd gysylltiadau â'r fforwm darparwyr rhanbarthol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a grŵp o oroeswyr drwy gydweithredu â'r tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yn ogystal, roedd yn rheoli prosiect lle'r oedd grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gweithio gyda darparwyr eiriolaeth, ac mae telueoedd yn ymwneud ag adolygu prosesau.





**Canolbarth a Gorllewin Cymru** Mynychodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol lau gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystod mis Gorffennaf 2017. Yn y cyfarfod hwnnw, bu'n trafod pwysigrwydd cryfhau'r agwedd ar y cwricwlwm ysgol sy'n ymwneud ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol, a chryfhau sgiliau bywyd pwysig megis sut i beidio â gorwario. Erfyniodd y Bwrdd lau am i ffocws addysg symud o'r straen sy'n gysylltiedig ag ennill graddau da i'r angen i agor drysau. Gofynnodd y bobl ifanc am i waith ym maes gwrth-fwllo fod yn thema barhaus yn hytrach nag yn bwnc ar gyfer yr Wythnos Ddiogelu yn unig. Mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn gyfarwydd ag arswyd bwlio. Lansiodd y Cyngor Ieuenctid addewid iechyd meddwl, a ddeilliodd o brofiad Harriet Alsop-Bingham, sef merch yn ei harddegau yr oedd ei phrofiad mor eithafol fel y dechreuodd hunan-niweidio. Dysgodd hi drwy brofiad fod dechrau sgwrs yn gallu trawsnewid sefyllfa, ac ysgogodd hynny'r Cyngor Ieuenctid i lansio #StoriHarriet. Arweiniodd hynny at gynhadledd Ieuenctid ynghylch iechyd meddwl, *Diwrnod gwael, dim bywyd gwael*. Enillodd Harriet Wobr Plentyn Dewr Radio Sir Gâr yn 2017. Roedd iechyd meddwl hefyd yn bwnc y nododd Diogelwyr lau Sir Benfro ei fod yn bwysig, yn eu hymgyngoriad â thros 3000 o bobl ifanc.

Cafodd syniadau'r Bwrdd Diogelu lau eu rhannu â Chyfarwyddwyr Addysg rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru, ac yn ystod mis Chwefror 2018 cafodd y Bwrdd lau wybod ei fod wedi dylanwadu ar waith cenedlaethol ar y cwricwlwm newydd. Tynnodd aelodau'r Bwrdd lau sylw at gamddefnyddio sylweddau, gan esbonio bod yn well ganddynt ffeithiau yn hytrach na "phropaganda hysteric" a chan dynnu sylw'r Bwrdd Rhanbarthol ac addysgwyr at y modd y caiff materion ym maes iechyd cyhoeddus eu cyflwyno i bobl ifanc. Cafodd aelodau'r Bwrdd lau eu gwahodd i roi sylwadau ar Gynllun Blynyddol 2018-19. Esboniodd y bobl ifanc eu bod am i'w cynlluniau nhw fod yn gysylltiedig â chynlluniau'r Bwrdd Rhanbarthol, er mwyn i'r ddau Fwrdd allu rhannu blaenoriaethau. Mae un o'r Diogelwyr lau, Bethany Roberts, yn aelod o Senedd Ieuenctid y DU ac enillodd un o wobrau Radio Sir Benfro i Gyflawnwyr Ifanc, sef gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn, am ei hymrwymiad i hawliau pobl ifanc a phlant.

Dywedodd grŵp "Eat Carrots Be Safe from Elephants" Powys a'r Diogelwyr lau wrth y Bwrdd Rhanbarthol eu bod am i wefan y Bwrdd adlewyrchu diddordebau pobl ifanc. Arweiniodd hynny at greu tudalennau pwrpasol, tudalen Facebook a chyfrifon Twitter, a oedd yn cynnwys llawer o ryngweithio. Yn ogystal, gofynnodd y grŵp "Eat Carrots..." am gael sicrhau bod addysg rhyw yn cynnwys materion sy'n ymwneud â phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol, materion sy'n ymwneud â bod yn *queer* / cwestiynu rhywedd, a hunaniaethau eraill (LGBTQ+), a materion sy'n ymwneud â deall y maes Amddiffyn Plant a phroses y llys er enghraifft. Cynhaliodd Gwasanaeth Ieuenctid a Sêr Saff Ceredigion gystadleuaeth dylunio poster ynghylch diogelu, a ddenodd 50 ymgais. Roedd y poster a ddaeth i law'n canolbwyntio ar seiberddiogelwch, bwlio a secstio, a chafodd y poster a'r capsion buddugol *Don't be mean behind the screen* eu dylunio gan Tyler o Ysgol Penglais a Chlwb Ieuenctid Penparcau. Bu Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth ac adran ddrama Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig i greu ffilm fer am ddiogelwch ar-lein. Daeth y ffilm yn ail yng nghystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel 2018 Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, cynhaliodd Diogelwyr lau Sir Benfro gynhadledd ynghylch cam-drin a chamfanteisio ar-lein.

Cynhaliodd Canolbarth a Gorllewin Cymru grwpiau ffocws ledled y rhanbarth gyda 56 o bobl a oedd wedi llwyddo i oresi camdriniaeth a thrais rhywiol. Cyfrannodd eu profiad a'u syniadau i'w strategaeth ar y cyd, yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Yn olaf ymgynghorodd y Byrddau â Pobl yn Gyntaf Sir Benfro er mwyn gweithio tuag at ddatblygu fersiwn hawdd ei darllen o'r Cynllun Blynyddol, gan gydnabod bod angen rhoi sylw i gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion.



**Gogledd Cymru** Comisiynodd ddrama am gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a berfformiwyd mewn ysgolion ledled y rhanbarth ac a gafodd ymateb ffafriol. Mae'r rhanbarth wedi creu Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfranogiad.

## WBSAB



Safeguarding and keeping safe  
Western Bay Safeguarding Adult Board



**Bae'r Gorllewin** Mae'r Byrddau yn gwahodd pobl fel mater o drefn i gymryd rhan yn eu gwaith, drwy gynnwys teuluoedd sy'n destun adolygiadau ymarfer. Mae'r Bwrdd Oedolion yn cysylltu â'r Panel Dinasyddion, a nododd yr angen am welliannau i'r wefan. Cynhaliodd Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin ddigwyddiad "ymgysylltu i rymuso" ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ar hyn o bryd neu a oedd yn arfer gwneud hynny, ac sydd â phroblemau iechyd meddwl. Nododd y digwyddiad heriau'n ymwneud ag integreiddio gwasanaethau a heriau'n ymwneud â chymhwysedd y gweithlu, er enghraifft. Roedd y syniadau a ddeilliodd o'r digwyddiad yn sail i waith y Grŵp Gweithredu Diagnosis Deuol.

## Nifer y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y gwnaed cais amdanynt yn yr ardaloedd Bwrdd Diogelu, a pha mor effeithiol yr oeddent

Am yr ail flwyddyn, ni soniodd unrhyw un o'r Byrddau Rhanbarthol eu bod wedi defnyddio'r adnodd cyfreithiol newydd hwn, sef y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Mae'r Gorchmynion yn galluogi swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall a bennir yn y gorchmyn, i fynd i mewn i "fangre" i gael sgwrs breifat gydag oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod; canfod a yw'r person hwnnw'n gallu gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg; a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Yn eu diffiniad o "fangre" mae'r canllawiau statudol yn cynnwys mangre ddomestig, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, ysbyty neu unrhyw adeilad, adeiledd, cartref symudol neu garafán arall y mae'r person yn byw ynddo/ynddi.<sup>1</sup>

Rydym wedi dod i'r casgliad bod Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn gallu cael eu hystyried yn adnodd cadarnhaol os methwyd gweld oedolyn yn flaenorol. Fodd bynnag, prin yw'r brwdfrydedd ynghylch eu defnyddio:

*...maent braidd yn ddi-rym...maen nhw'n eich galluogi i fynd drwy'r drws i weld rhywun, ond beth wedyn? At ddibenion cymharu, pe baem yn pryderu ddigon am iechyd meddwl rhywun, er enghraifft, ond yn ei chael yn anodd gweld yr unigolyn hwnnw, mae modd defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983<sup>2</sup> i gyrraedd yr unigolyn a'i symud i'w asesu. Nid yw'r Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi'r un pwerau i ni, ac yn aml caiff materion eu datrys heb fod angen neu cyn bod angen gorchmyn o'r fath//*

*Un rhan yn unig o'r broblem yw cyrraedd oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg; os yw'r unigolyn hwnnw wedi bod yn byw'n ddigon hir mewn amgylchedd gwenwynig a chymhellol, byddai yn fy marn i'n cymryd mwy na sgwrs/asesiad brysbennu sydyn i ddarganfod a yw'r unigolyn yn wynebu unrhyw risgiau. Byddai'n anodd cael yr unigolyn i ddatgelu problemau'n foddog i weithiwr cymdeithasol, er enghraifft, nad yw efallai wedi meithrin unrhyw berthynas ag ef eto. Pe bai yna bŵer i symud unigolyn (a fyddai wrth gwrs yn esgor ar ei anawsterau ei hun), mae'n bosibl y byddai hynny'n cynnig digon o amser a digon o bellter oddi wrth y sawl sy'n achosi'r risg fel bod yr oedolyn yn gallu datgelu pryderon.*

Mae John Williams<sup>3</sup> yn cydnabod bod asesu a yw unigolyn yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd ai peidio'n dasg gymhleth oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag adnabod ymddygiad cymhellol yn syth. Mae'n nodi nad yw'n glir a yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn caniatáu mynd i mewn i fangre sawl gwaith nes y bydd dibenion y Gorchmynion wedi'u cyflawni. Nid yw'r Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi pwerau parhaus i swyddogion awdurdodedig fynd i mewn i fangre, er bod yr unigolyn efallai'n cael ei adael gyda rhywun sy'n ei niweidio ac a allai fod wedi'i wylltio gan yr ymyriad, sy'n golygu bod y person yn wynebu mwy o risg. Rhaid bod hynny'n un o ystyriaethau ynadon heddwch wrth wrando ar geisiadau – ac yn un o ystyriaethau Llywodraeth Cymru wrth iddi ystyried a fyddai pwerau ymyrryd cyfyngedig, megis symud unigolyn dros dro i'w asesu, neu wahardd rhywun dros dro, yn golygu bod Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn adnodd cyfreithiol mwy defnyddiol.



### WYDDECH CHI?

I Mae galw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i rym yn benderfyniad mawr o safbwynt hawliau dynol. Cafodd y Bwrdd Cenedlaethol wybod bod cais am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi'i wneud – y tu allan i gyfnod adrodd y Byrddau Rhanbarthol ar gyfer adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol – drwy Athro yn y Gyfraith, drwy swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn...

1 Llywodraeth Cymru (2016) Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, paragraff 1.14

2 Adran 135: Os yw person sy'n dioddef o anhwylder meddyliol yn cael ei gam-drin neu'n cael ei gadw mewn modd sy'n golygu nad yw dan reolaeth briodol, neu os yw person o'r fath yn byw ar ei ben ei hun ac yn methu â gofalu amdano'i hun yn briodol, gall ynad gyflwyno gwarant sy'n awdurdodi swyddog heddlu i fynd i mewn i fangre, gan ddefnyddio grym os oes angen, a symud y person i le diogel

3 Williams, J. (2017) Adult Safeguarding in Wales: one step in the right direction *The Journal of Adult Protection*, 19 (4) 175-186

## Unrhyw wybodaeth neu ddysgu a ddosbarthwyd gan y Byrddau Diogelu, neu hyfforddiant y maent wedi'i argymhell neu'i ddarparu

Gan fod camdriniaeth mor niweidiol i iechyd a lles unigolion, mae'r Byrddau Rhanbarthol yn chwarae rhan yn y gwaith o wella sgiliau pobl ac ehangu eu gwybodaeth. Mae pob un o'r Byrddau Rhanbarthol wedi creu grwpiau hyfforddiant: mae gan Gaerdydd a'r Fro Is-grŵp Hyfforddiant; mae gan Gwm Taf Is-grŵp Hyfforddiant a Dysgu; mae gan Went Is-grŵp Dysgu a Datblygu; mae gan Ganolbarth a Gorllewin Cymru Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol; mae gan Ogledd Cymru Gyd-grŵp Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu; ac mae gan Fae'r Gorllewin Gyd-grŵp Hyfforddiant. Felly, maent yn sicrhau bod modd i ymarferwyr gael gafael ar wahanol fathau o hyfforddiant ynghylch diogelu, ar wahanol lefelau.

Cafodd y Byrddau Rhanbarthol eu cynrychioli mewn tri o gyrsiau hyfforddiant deuddydd a oedd yn ymwneud â'r broses ar gyfer adolygiadau ymarfer. Cafodd y ddarpariaeth ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mynychodd y Byrddau Rhanbarthol hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

Mae gwefannau'r Byrddau Rhanbarthol yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol, megis beth y mae'r Byrddau yn ei wneud, pwy y maent yn eu cynnwys, sut y maent yn rhoi gwybod am gamdriniaeth, a gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelu ac adolygiadau ymarfer, er enghraifft.

Mae tri Bwrdd Rhanbarthol wedi dechrau ar ddadansoddiadau annibynnol o anghenion o ran hyfforddiant. Nid yw Caerdydd a'r Fro yn manylu ar ei ddadansoddiad. Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu Strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol o ganlyniad i'w ddadansoddiad. Mae'n cydnabod natur amrywiol hyfforddiant proffesiynol a hyfforddiant sy'n benodol i sefydliadau, ac mae'n mynd i'r afael â'r angen i asiantaethau partner ddeall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau fel y maent wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015. Mae Gogledd Cymru wedi tynnu sylw at y rheolaeth gyfyngedig ar bwy sy'n gallu / pwy sydd yn darparu hyfforddiant ynghylch diogelu, ac at absenoldeb safonau y cytunwyd arnynt er mwyn dangos cymhwysedd / dealltwriaeth. Mae hefyd wedi nodi'r angen am hyfforddiant ynghylch risg, hyfforddiant ynghylch hunan-niwed a hyfforddiant ynghylch ymchwilio ar y cyd.

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn nodweddion cyson o hyfforddiant pob un o Fyrddau Rhanbarthol Cymru. Fel arall, mae'r hyfforddiant yr adroddir yn ei gylch yn y Byrddau Rhanbarthol yn adlewyrchu mentrau plismona megis Llinellau Sirol, ymgyrch Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn lle anos i gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl ddigwydd ynddo<sup>4</sup>, a diddordebau rhanbarthol megis gofal dementia (Cwm Taf); hunanladdiad a hunan-niwed (Gwent); gweithio gyda theuluoedd anodd, heriol a gochelgar (Canolbarth a Gorllewin Cymru); hunanesgeuluso (Gogledd Cymru); a phobl ifanc yn ymwneud ag ymddygiad niweidiol o safbwynt rhywiol (Bae'r Gorllewin).

<sup>4</sup> Troseddwy'r/gangiau yn y DU yn gwerthu cyffuriau ar draws ffiniau sirol, yn gorfodi pobl ifanc ac yna'n camfanteisio arnynt i ddosbarthu cyffuriau a chasglu taliadau mewn arian parod. Mae'n bosibl bod y bobl ifanc hynny ar wahân i eraill yn y gymdeithas, eu bod yn blant a arferai dderbyn gofal, a bod ganddynt anabledau corfforol neu anabledau dysgu, er enghraifft

Mae'n gynnar o hyd, ac mae'r Byrddau Rhanbarthol yn dangos eu parodrwydd i fynychu digwyddiadau, comisiynu a darparu hyfforddiant a gofyn cwestiynau treiddgar am safonau, er enghraifft.

Yn ystod 2016-17, ceisiodd y Bwrdd Cenedlaethol a Gofal Cymdeithasol Cymru sefydlu gwaelodlin o gyfleoedd o ran hyfforddiant ynghylch diogelu. Ofer oedd yr ymdrech honno. Fodd bynnag, oherwydd nad yw'n bosibl gweld o adroddiadau blynyddol 2017-18 (i) pa fath o hyfforddiant a gaiff ei ffafrio – hyfforddiant dan gyfarwyddyd, hyfforddiant ar-lein neu gymysgedd o'r ddau; (ii) a oedd y dadansoddiadau o anghenion o ran hyfforddiant (a) wedi'u cydgysylltu ac yn ceisio gwybodaeth a oedd yn union yr un fath, (b) yn cyfuno anghenion unigolion yn ogystal ag anghenion sefydliadau, mae'r achos dros ddatblygu trosolwg o hyfforddiant ynghylch diogelu yng Nghymru yn parhau.

	<b>Dysgu a hyfforddiant</b>
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Cynhaliodd "ymarfer mapio hyfforddiant" er mwyn gweld pa hyfforddiant y mae asiantaethau'n ei gynnig; mae'n datblygu cofrestr hyfforddiant; ac mae'n ceisio ymgorffori gwersi o adolygiadau ymarfer, ac o ymchwil ynghylch diogelu, mewn hyfforddiant yr ymgwymerir ag ef yn y dyfodol
<b>Cwm Taf</b>	Mae wedi darparu cyrsiau hyfforddiant ynghylch diogelu; mae wedi cynyddu niferoedd yr adolygwyr / hwyluswyr er mwyn cynnal adolygiadau ymarfer; ac mae wedi cynnal digwyddiadau amlasiantaeth i ymarferwyr
<b>Gwent</b>	Er bod ei hyfforddiant yn tueddu i ymwneud â diogelu plant, mae'r broses o fynd i'r afael â hyfforddiant cyfochrog ynghylch diogelu oedolion wedi dechrau. Mae'n rhagweithiol o safbwynt darparu hyfforddiant ynghylch codi ymwybyddiaeth, er mwyn ategu'r hyfforddiant a ddarperir gan asiantaethau unigol; mae wedi adolygu a diwygio modiwlau hyfforddiant ac mae wrthi'n eu treialu; ac mae'n comisiynu hyfforddiant ynghylch pynciau arbenigol
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Mae wedi buddsoddi mewn datblygu ei wefan er mwyn hyrwyddo digwyddiadau, adolygiadau ac arfer da; mae wedi cynnal dadansoddiad o anghenion o ran hyfforddiant; ac mae wedi bod yn gwneud synnwyr o fframweithiau hyfforddiant mewnol amryw sefydliadau
<b>Gogledd Cymru</b>	Cynhaliodd ddadansoddiad o anghenion o ran hyfforddiant ac ymatebodd dros 30 o sefydliadau. Tynnodd y dadansoddiad sylw at "fylchau" a oedd yn ymwneud yn bennaf â diogelu oedolion. Mae'n cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd cymhwysedd a dealltwriaeth hyfforddwyr, ac mae wrthi'n archwilio: hyfforddiant sylfaenol y cytunwyd arno'n rhanbarthol ar gyfer darparwyr, a fframwaith perfformiad; a hyfforddwyr y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Mae'n dibynnu ar aelodau'r Bwrdd Rhanbarthol i ddsbarthu'r gwersi sy'n deillio o archwiliadau ac adolygiadau ymarfer. Mae'n dibynnu ar gronfa o hyfforddwyr mewn asiantaethau sy'n cynnwys y tri awdurdod lleol, Heddlu De Cymru a Chymorth i Fenywod, er enghraifft



## WYDDECH CHI?

Mae yna bedwar cwestiwn cyfarwydd y mae gofyn eu hateb:

**A yw comisiynwyr hyfforddiant yn hyderus bod cynnwys y cwrs yn cyd-fynd yn agos â gwaith pobl o ddydd i ddydd?**

**A yw comisiynwyr hyfforddiant yn ymrwmo i gytundebau â dysgwyr unigol a'u sefydliadau ynghylch anghenion dysgu penodol?**

**A yw dysgwyr yn cael eu hannog i nodi pa newidiadau y maent yn gobeithio eu gwneud i'w hymarfer ar ôl yr hyfforddiant?**

**A yw sefydliadau'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth ac yn rhoi enghreifftiau (yn nes ymlaen) sy'n dangos a oes unrhyw rai ar eu hennill ai peidio o ganlyniad i'w hyfforddiant?**

## Sut y mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn anfon eu hadolygiadau ymarfer i Lywodraeth Cymru<sup>5</sup>, mae'r Cadeiryddion yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru ac mae'r Byrddau Plant wedi blaenoriaethu ffyrdd o fynd i'r afael ag achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

	Gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau lle'r oedd cynrychiolaeth o Gaerdydd a'r Fro yn bresennol... mae aelodau'r Bwrdd yn rhoi sylw i argymhellion y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac i'w pryderon nhw eu hunain ynghylch didwylledd a'r gallu i fonitro unrhyw broblemau sy'n deillio o unrhyw asiantaeth unigol
<b>Cwm Taf</b>	Cafodd casgliadau adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol eu hystyried wrth ddatblygu adroddiad blynyddol eleni, ac roeddent yn sail i strwythur yr adroddiad
<b>Gwent</b>	Mae Byrddau Gwent wedi cymryd rhan yn llawn mewn digwyddiadau cenedlaethol...y Bwrdd Prosiect ar gyfer llunio Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, cyfarfodydd uwchgynhadledd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol...mae'n cael diweddariadau rheolaidd ynghylch ymarfer gan aelod cyswllt y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, er enghraifft ynghylch addysg ddewisol yn y cartref
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi cynorthwyo CYSUR gyda'i waith parhaus ar addysg ddewisol yn y cartref...mae wedi ystyried adborth a chngor, ac wedi gweithredu ar sail adborth a chngor, ynghylch sut y gall y Bwrdd ddangos yn well y gwaith da a wnaed a'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd, wrth gyflwyno ei adroddiad blynyddol
<b>Gogledd Cymru</b>	Yng nghyswllt adroddiad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ynghylch plant sy'n cael addysg yn y cartref. Cafwyd cyflwyniad yn y Bwrdd, a rannwyd wedyn â'r grwpiau cyflawni lleol
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Roedd uwchgynhadledd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn addysgiadol ac yn gynhwysol, a darparodd gyngor a chanllawiau ynghylch arweinyddiaeth





### WYDDECH CHI?

Pryd bynnag y bydd rhywun yn dweud wrthym beth y dylem ei wneud a sut, byddwn yn tueddu i ymateb yn herfeiddiol ac yn amddiffynol...

<sup>5</sup> Er bod Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, 4 (5) (k) yn datgan y dylai Byrddau roi "copi o'r adroddiad ar yr adolygiad ymarfer a'r cynllun gweithredu i Weinidogion Cymru ac i'r Bwrdd Cenedlaethol", nid yw hynny'n digwydd yn ymarferol eto

## Materion eraill sy'n berthnasol i waith y Byrddau Diogelu

Rydym wedi crynhoi'r negeseuon o adroddiadau'r Byrddau Rhanbarthol ar y cardiau post canlynol.





Rydym yn poeni y gallai gweithwyr y GIG ddod i gysylltiad ag oedolion sy'n wynebu risg cyn bod archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. Mae digwyddiad ofnadwy mewn bwrdd iechyd cyfagos wedi amlygu dulliau ymarfer anghyson ym maes Adnoddau Dynol. Rydym yn barod i ystyried gyda chi beth y mae hynny'n ei olygu ar gyfer gwaith a gyflawnir mewn partneriaethau amlasiantaeth.

Cofion

*Lywodraeth Cymru*  
*a GIG Cymru*

Rydym o'r farn y bydd ailddatblygu Wylfa Newydd yn effeithio ar drefniadau diogelu. Rydym am gael gwybod sut yr ydych yn bwriadu atal a lleihau'r tebygolrwydd y bydd unigolion o'r gweithlu yn niweidio plant, pobl ifanc ac oedolion ar yr ynys - ac ar draws gogledd Cymru.

Cofion

*Bŵer*

*Niwclear*

*Horizon*

Wrth i nifer y gwasanaethau sy'n rhan o'r broses Uwchgyfeirio Pryderon gynyddu (efallai ei fod yn ddata diogelu defnyddiol?), mae nifer y cartrefi nysio a'r cartrefi preswyl yn gostwng. Rydych yn datgan bod angen rhoi sylw i arweinyddiaeth a rheolaeth. Pwy sy'n gyfrifol am hynny?

Cofion


*Arolygiaeth*

*Gofal*

*Cymru*

Pam nad ydych  
yn cyfrannu  
arian i'r Byrddau  
Rhanbarthol?

Cofion

  
Iechyd  
Cyhoeddus  
Cymru

Mae ein gwaith ar gamdriniaeth  
ariannol (pobl yn cael eu  
twyllo, yn cael eu sgamio, yn  
gweld eu harian/eiddo'n cael  
ei gamddefnyddio) wedi tynnu  
ein sylw at risgiau newydd sy'n  
ymwneud â hapchwarae. Sut y  
gallem fynd i'r afael â'r heriau  
hyn yng Nghymru?

Cofion

  
Gomisiwn Hapchwarae  
a Banciau

Rydym yn amau a  
yw'r costau mawr  
sy'n gysylltiedig â'r  
Trefniadau Diogelu  
rhag Amddifadu o  
Ryddid yn gynaliadwy,

Cofion

  
Senedd  
San Steffan

## 2

## Cymorth a chyngor y Bwrdd Cenedlaethol i Fyrddau Diogelu, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol

Mae gan gynllun gwaith 2018-19 y Bwrdd Cenedlaethol ymdeimlad cryf o barhad yn dilyn ei raglen waith flaenorol – a oedd yn rhoi pwys ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac ar feithrin y lefel orau o ddealltwriaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol. Mae ganddo ffydd mewn syniadau gobeithiol a dulliau gweithredu newydd. Mae ganddo safbwynt hirdymor ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd ffyrdd o gyfathrebu er mwyn cyflawni dau nod, sef atal plant ac oedolion rhag wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Mae ein dealltwriaeth o ddarparu cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu yn cynnwys rhoi sylw i agendâu, cynlluniau a rhaglenni gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae pum aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol wedi mynychu rhwng 7 a 15 o gyfarfodydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ers 2016. Mae hynny wedi sicrhau bod ganddynt brofiad o ymwneud â'r gwaith sy'n digwydd ar lawr gwlad a'u bod yn gyfarwydd â'r modd y caiff eu rhaglenni gwaith eu gweithredu. Yn ogystal, mae wedi bod yn fodd i rannu syniadau o fannau eraill yng Nghymru a'r DU, er enghraifft.

Drwy fynychu cyfarfodydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a sganio eu hadroddiadau blynyddol, gwelwyd y rheidrwydd i ychwanegu at y wybodaeth am ddiogelu sydd ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn gwella **llythrennedd cyfreithiol ym maes diogelu**. Mae Canllaw Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, *Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol*, ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Bwrdd Cenedlaethol. Mae wedi'i ysgrifennu gan Abla O'Callagan, Laura Shepherd a Ruth Henke CF<sup>6</sup>. At hynny, gan ei bod yn bosibl i ymarferwyr sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion gael eu llethu gan y **dasg o ddysgu o dreialon troseddol ac ymchwiliadau allweddol**, mae'r Bwrdd Cenedlaethol wrthi'n crynhoi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion arwyddocaol yng Nghymru, sy'n debygol o gael eu cofio oherwydd y sylw a gawsant yn y cyfryngau, ac yn archwilio sut y gallai adnodd o'r fath gael ei gynnal a'i ddatblygu yn y dyfodol.

Yn ystod mis Tachwedd 2017 cynhaliodd y Bwrdd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru gynhadledd, **Diogelu mewn Chwaraeon: Cymryd Cyfrifoldeb - Cymryd Camau**, er mwyn cydnabod cyflawniadau eithriadol y sawl y mae camdriniaeth wedi tarfu ar eu bywyd ond sydd wedi ennill y dydd o safbwynt cryfder ac urddas. Mae nofio, rhedeg, pêl-droed, beicio, gymnasteg, rygbi a gweithgareddau corfforol eraill i gyd o fudd i'r meddwl, y corff a llesiant. Yn ogystal â'u manteision i iechyd, mae chwaraeon yn ein haddysgu ynghylch ymdrechu, ymarfer, gweithio fel tîm ac ennill neu gollu gyda'n gilydd. Mae hunanhyder a hunan-barch plant sy'n mwynhau chwaraeon, a'r sawl sy'n ddawnus ym maes chwaraeon, yn amlwg. Mae gwyllo'r sawl sy'n rhagori ym maes chwaraeon yn rhoi gwefr. Mae'r sawl sy'n ddawnus ym maes chwaraeon yn gwneud i boblogaeth deimlo'n well amdani ei hun ac yn rhoi hwb i falchder mewn bri rhyngwladol. Mae eu llwyddiannau'n ysbrydoli eraill ac yn creu cronfa ehangach o bobl y gellir adnabod pencampwyr y dyfodol o'u plith. Cadarnhaodd y digwyddiad fod meddu ar ddawn eithriadol ym maes chwaraeon yn gallu golygu bod rhywun yn cael ei recriwtio gan sgowt a/neu'n cael hyfforddiant un i un gan bobl sy'n adnabyddus yn eu rhinwedd eu hunain.

<sup>6</sup> Ymgynghorwyd ynghylch y testun hwn mewn cynhadledd Cymru'r Gyfraith ar 12 Hydref 2018

Mae'r bobl hynny'n bobl o fri ac yn dylanwadu'n sylweddol ar b'un a fydd plant a phobl ifanc yn llwyddo ai peidio yn y gamp y maent wedi'i dewis. Fodd bynnag, os caiff hyfforddwy'r eu cymell gan amcanion eraill gall bywydau ifanc gael eu troi wyneb i waered, ac o gofio na chaiff y rhan fwyaf o gampau eu rheoleiddio ceir achos dros ymgyrchu'n gadarn.

Mae ymgyrchu'n hanfodol wrth i ni weithio tuag at yr hyn sy'n ein huno, sef diogelu pawb sy'n wynebu risg o niwed. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol, y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gryfhau ac atgyfnerthu ymwybyddiaeth o ddiogelu drwy ymuno ag eraill a datblygu **ymgyrchoedd cynhwysol**, sy'n sicrhau bod pobl a anwybyddir fel rheol yn cael cyfle i rannu eu pryderon. Mae ein hymgyngoriadau ni ein hunain ag unigolion a grwpiau ledled Cymru a'r DU wedi ennyn ein diddordeb yn y materion canlynol:

- “diogelu cyd-destunol”<sup>7</sup> sy'n darparu fframwaith ar gyfer deall y ffyrdd y gall ymdrechion rhieni, er enghraifft, gael eu tanseilio. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn aelod o Banel Dylanwadu a Chynghori'r rhaglen yn y DU;
- adborth anuniongyrchol o'r gwaith ymchwil perthnasol. Er enghraifft, rydym wedi cael gwybod am dri atgyfeiriad at y tîm diogelu gan Adran y Gyfraith a Throsedddeg ym Mhrifysgol Aberystwyth<sup>8</sup> yn ymwneud â thri pherson hŷn a oedd yn dioddef camdriniaeth ddomestig. Ni chafodd atgyfeiriadau'r gweithwyr proffesiynol eu cydnabod ac ni chysylltwyd â'r tri pherson hŷn, er bod rheolwyr diogelu wedi'u copïo i mewn i'r negeseuon atgyfeirio. Oherwydd hynny, gorfu i dîm ymchwil ymgymryd â'r dasg o adnabod mudiadau yn y trydydd sector a darparwr iechyd. Roedd yr un ymchwilwyr yn cofio am ddynes hŷn a gysylltodd â thîm diogelu plant er mwyn sôn am amgylchiadau ei hwyrion a oedd yn gweld camdriniaeth ddomestig yn digwydd. Cafodd wybod na ellid derbyn atgyfeiriadau gan drydydd partion.<sup>9</sup> Mae hynny'n anghywir. Gall unrhyw un atgyfeirio pobl;
- cwricwlwm newydd Cymru o 2022 ymlaen, *Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb*, ar ôl cyfrannu i'w sail resymegol;
- gweithgareddau rhwydwaith Lloegr o Gadeiryddion Byrddau Diogelu Oedolion, a dynnodd sylw'r Bwrdd Cenedlaethol at y ddogfen a gyhoeddwyd yn 2017, *Safeguarding Adults: Scamming and Mental Capacity*<sup>10</sup> ymhlith pethau eraill; cafodd y ddogfen ei rhannu â'r Byrddau Rhanbarthol;
- comisiynu gwasanaethau ar gampws ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anabledau dysgu yn y DU;
- dysgu o ymarfer diogelu yn y DU ac yn rhyngwladol. Rhannodd y Bwrdd Cenedlaethol wybodaeth am ymarfer diogelu rhyngwladol â Llywodraeth Cymru, a ddeilliodd o waith a wnaed gydag Awdurdod Gwybodaeth am Iechyd ac Ansawdd Iechyd Gweriniaeth Iwerddon<sup>11</sup>;
- y rhaglen Diogelu Oedolion a Llythrennedd Cyfreithiol (SALLY)<sup>12</sup>, a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, a oedd yn atgyfnerthu pwysigrwydd egluro *Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol* yng Nghymru; a
- rhaglen waith y Grŵp Penaethiaid Arolygiaethau – yn anad dim o safbwynt paru archwiliadau o waith partneriaethau amlasiantaeth ag arolygiaethau amlasiantaeth; a sicrhau gwerth.

7 <https://www.beds.ac.uk/ic/current-projects/contextual-safeguarding-programme> (cyrchwyd 1 Medi 2018)

8 Dewis Choice: Building Justice Options with Older People

9 *Older Survivors of Domestic Abuse: A forgotten Population* 3-6 Medi 2018, Prifysgol Aberystwyth, Adran y Gyfraith

10 Gan Fenge, L-A., Lee, S. a Brown, K., yn rhan o'r gyfres Post-Qualifying Social Work Practice, London: Learning Matters, Sage Publications Ltd

11 Health Information and Quality Authority and Mental Health Commission (2018) *Adult Safeguarding: Background document to support the development of national standards for adult safeguarding* <https://www.hiqa.ie/reports-and-publications/standard/background-document-support-development-national-standards-adult> (cyrchwyd 1 Medi 2018)

12 <https://www.keele.ac.uk/law/newsevents/events/archive/2018/ab-sallyseminar-series3.php> (cyrchwyd 1 Medi 2018)

Yn ystod mis Mai 2018, dywedodd y Bwrdd Cenedlaethol wrth Lywodraeth Cymru fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y rheoliadau a Chyfrwl 1 y canllawiau yn mynd i'r afael yn gywir ac mewn modd cynhwysfawr â swyddogaethau'r Byrddau. Cydnabu gwaith rhaglen beilot Cymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr o adolygiadau gan gymheiriaid o drefniadau diogelu oedolion, cyn i Ddeddf Gofal 2014 gael ei chyflwyno, fod **cyfyngiadau'n perthyn i drefniadau hunanasesu**. Roedd yr adolygiadau gan gymheiriaid yn ceisio cynorthwyo Byrddau i adnabod cryfderau'n ogystal â gwelliannau. Roeddent yn darparu cyfleoedd i Fyrddau / partneriaethau sicrhau bod eu hymarfer yn cael ei herio a'i drafod mewn modd cefnogol, sy'n fethodoleg gyfarwydd i'r heddlu hefyd. Yn yr un modd, mae methodolegau ymchwil weithredu'n addawol iawn o safbwynt datblygu systemau'n effeithiol i ystyried ffyrdd newydd o drefnu a gwella dulliau gweithio.

Hoffem nodi bod rhai Byrddau Rhanbarthol yn ychwanegu at eu strwythurau er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau. Er enghraifft, "cafodd grŵp strategol amlasiantaeth ei sefydlu...cafodd Grŵp Amlasiantaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ei sefydlu...mae Grŵp Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn dod â phartneriaid allweddol ynghyd...cafodd grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen...cafodd yr Is-grŵp Archwiliadau Plant ei ailsefydlu...sefydlwyd Is-grŵp Thematig yn lle'r Is-grŵp Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant...ail-lansiwyd yr Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu..." Os yw ychwanegiadau o'r fath yn hanfodol ar gyfer y rheidrwydd i barhau'n drwm i swyddogaethau'r Byrddau Rhanbarthol, yna dylid cytuno ar y sail resymegol a dylai'r sail resymegol honno gael ei chysylltu â chanlyniadau er mwyn ei gwneud yn bosibl barnu llwyddiant y strwythur newydd.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y nifer anymarferol o **egwyddorion sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Er enghraifft, ar draws Hyb Gofal Cymdeithasol Cymru<sup>13</sup>, mae dogfen gan Lywodraeth Cymru sy'n dwyn y teitl "Gwybodaeth hanfodol" ac sy'n crynhoi'r Ddeddf<sup>14</sup>, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – *Cyflwyniad a Throsolwg*<sup>15</sup>, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 2 – *Adolygiadau Ymarfer Plant*, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 – *Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol*, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – *Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg*, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 6 – *Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg* a'r dogfennau sy'n deillio o'r adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn nodi egwyddorion gwahanol. Rydym wedi awgrymu wrth Lywodraeth Cymru y byddai'n ddymunol iddi ystyried y sefyllfa oherwydd dylai egwyddorion fod yn hydrin o ran eu nifer a dylent fod yn gyson os bwriedir i ni fod â hyder ym marn gweithwyr proffesiynol.

Yn ogystal, rydym wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru bod Cyfrolau 5 a 6 y canllawiau statudol wedi cyflwyno **rhywfaint o ansicrwydd drwy orddefnyddio'r gair "pryder"** yn hytrach na datgan bod "achos rhesymol i amau bod plentyn / oedolyn yn wynebu risg". Nid yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cyfeirio at "bryderon" nac yn cynnig bod "pryderon" yn gyfystyr â "honiadau". Yn ogystal, oherwydd nad yw'r Ddeddf yn cyfeirio at awdurdod lleol neu bartneriaid perthnasol yn cynnal "ymchwiliadau" diogelu nac yn cynnig bod ymchwiliadau'n gyfystyr ag **"ymholiadau"**, gwnaethom adael i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n ddoeth ai peidio i Gyfrolau 5 a 6 barhau i fodoli.

<sup>13</sup> <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb> (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2018)

<sup>14</sup> <https://llyw.cymru/docs/dhss/publications/160127/socialservicesactcy.pdf> (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2018)

<sup>15</sup> <https://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?lang=cy> (cyrchwyd 21 Gorffennaf 2018)

Mae'n ofynnol i adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol gynnwys "unrhyw themâu gwaelodol o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Diogelu wedi arfer ei swyddogaethau, fel y'u dangosir drwy **ddadansoddiad o achosion** y mae wedi ymdrin â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi eu rhoi ar arfer o ganlyniad" (Rheoliad 6(1) (i)). Roedd Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion yn cael eu rhoi ar wefannau'r Byrddau Rhanbarthol am gyfnodau mor fyr fel y gwnaethom gynnig eu rhoi ar wefan y Bwrdd Cenedlaethol. Oherwydd ei bod yn haws gwneud synnwyr o nifer mwy o adolygiadau, mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi comisiynu adolygiad thematig o chwe Adolygiad Ymarfer Oedolion (ers 2016), 10 Adolygiad Dynladdiad Domestig a phedwar Adolygiad Dynladdiad oherwydd lechyd Meddwl ers 2012. Darparodd yr awduron o Brifysgol Caerdydd, Amanda Robinson, Alyson Rees a Roxana Dehaghani, drosolwg a oedd i'w groesawu o'r astudiaethau achos cwbl wahanol hyn, sy'n cyd-fynd â buddsoddiad y Bwrdd Cenedlaethol mewn (i) comisiynu ymarfer craffu cyfatebol yng nghyswllt Adolygiadau Ymarfer Plant a (ii) defnyddio systemau cyfrifiadurol sy'n gallu dysgu o batrymau a thueddiadau, ac sy'n gallu gwneud penderfyniadau ar sail data drwy astudio patrymau a thueddiadau. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn parhau i archwilio – gyda Phrifysgol Caerdydd, prifysgolion eraill yng Nghymru, Nesta (Y Lab – Labordy Arloesedd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) a SafeLives – ddatblygiadau arloesol posibl mewn gwybodaeth ac ymarfer diogelu.

Ar ôl ystyried y data diogelu a gesglir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweld ei gyfyngiadau. Mae ffynhonnell atgyfeiriadau, natur y risgiau a'r honiadau, a nodweddiad y dioddefwyr honedig yn ddiddorol tu hwnt<sup>16</sup>. Fodd bynnag, ni chaiff casgliadau ynghylch effaith diogelu eu datgelu gan ddatganiadau ynghylch a gafodd honiadau eu cadarnhau ai peidio. Mae angen set ddata fwy credadwy os bwriedir cymharu a gwerthuso ymarfer diogelu ledled Cymru. Bu uwchgynhadledd y Bwrdd Cenedlaethol '**Gwneud i Ddiogelu Gyfrif**' yn ystyried y ffynonellau gwybodaeth a fyddai efallai'n galluogi'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Cenedlaethol i adrodd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu. Mae'r Papur Briffio yn dilyn y gynhadledd wedi'i ddsbarthu i'r Byrddau Rhanbarthol er mwyn iddynt roi cynnig ar weithredu syniadau megis gwirio blaendalen cofnodion Cyfarfodydd Strategaeth i weld y manylion ynghylch presenoldeb a gweld i ba raddau y maent yn gyfarfodydd amlasiantaeth; nifer y lleoliadau y mae'r sawl sy'n destun myriadau diogelu yn eu cael; a gofyn, lle bo'n ymarferol, "Am ba hyd y buoch chi'n byw gyda...cyn gofyn am help?" a "Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n ddiogel?".

Cadarnhaodd Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth ym maes Diogelu 2017 fod **arweinyddiaeth ym maes diogelu** wedi'i dosbarthu ymysg unigolion a sefydliadau ar bob lefel. Yn unigol ac ar y cyd, mae cysylltiadau aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol â rheoleiddwyr ar draws sectorau, nad ydynt yn cyfrannu mewn modd amlwg i waith y Byrddau Rhanbarthol, wedi galluogi trafodaethau agored ynghylch cyflwr diogelu yng Nghymru, ac asesiadau o gyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n atal strategaethau rhanbarthol rhag sicrhau trefniadau diogelu gwell. Bydd uwchgynadledau yn ystod 2018-19 yn ceisio cymryd camau pendant i greu coalisiynau a rhwydweithiau o arweinwyr, gan gynnwys y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn hyrwyddo rhyngweithio â phobl dros gyfnod o amser, yn hytrach na chael gwybodaeth ganddynt yn achlysurol. Ceir enghreifftiau gwirioneddol ysbrydoledig o achosion lle gwrandawyd ar farn plant a phobl ifanc yng Nghymru a lle gweithredwyd ar sail y farn honno. Fodd bynnag tueddir i wrando mwy ar blant a phobl ifanc, a cheir llai o fuddsoddi mewn dulliau o gasglu barn oedolion. **Rydym wedi hyrwyddo enghreifftiau go iawn o ymarfer effeithol a dychmygus o safbwynt gwrandao a meithrin ymddiriedaeth**, gweithredu ar sail yr hyn a glywir, datblygu dulliau cyfathrebu dwyffordd nad ydynt yn defnyddio jargon, cynnwys gwasanaethau eiriolaeth ac ymgysylltu â theuluoedd plant ac oedolion.

<sup>16</sup> Roedd adroddiadau blynyddol dau Fwrdd Rhanbarthol yn cynnwys data ynghylch atgyfeiriadau

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi gwahodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiynydd Plant a chydweithwyr yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am **ddefnyddio ataliad, neilltuaeth a "bythau arwahanu"**.<sup>17</sup> Bydd papur sy'n nodi'r hyn a wyddys am yr ymarfer yng Nghymru, gan gynnwys profiad pobl o'r ymarfer hwnnw, yn cael ei rannu â'r Byrddau Rhanbarthol a Gweinidogion.

Mae comisiwn 2017 y Bwrdd Cenedlaethol ynghylch **addysg ddewisol yn y cartref** wedi'i groesawu gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Er bod siom ynghylch y ffaith mai ymgynghoriad fydd yn digwydd ddechrau 2019 yn hytrach na bod cofrestr yn cael ei chreu er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn ystyried pa fesurau pellach y bydd angen iddi fynd ar eu trywydd, gan gynnwys deddfwriaeth newydd, os bydd ei dull o weithredu wedi bod yn annigonol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i adnabod plant nad ydynt yn cael addysg addas.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi addo hyrwyddo gwaith ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol a gofal iechyd drwy noddi **gwobrau diogelu** (i) gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a (ii) y Coleg Nyrsio Brenhinol. Ceir unigolion a thimau y mae eu gwaith gyda phobl sydd mewn trallod neu argyfwng yn esgor ar fanteision enfawr. Pan fydd pobl y mae eu bywydau wedi'u troi wyneb i waered gan dlodi, achosion o fwlio, heriau'n ymwneud ag iechyd meddwl, ymddygiad caethiwus, trais domestig neu brofedigaeth yn cael cymorth i gael eu traed danynt, gall y manteision bara ymhell i'r dyfodol. Mae dyfalbarhad ymarferwyr a'u parodrwydd i alluogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fod yn ddiogel yn gallu trawsnewid amgylchiadau mewn cynifer o ffyrdd, ac mae'r gwobrau hyn yn ffordd bwerus o ddathlu llwyddiannau calonogol y sawl sy'n torri tir newydd.

Wrth sôn am gynllun gwaith y Bwrdd Cenedlaethol ei hun, yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17, dywedodd y Bwrdd Cenedlaethol ei fod yn "**nodi dull cost-ymwybodol o gryfhau ymatebion i faterion diogelu yng Nghymru**" oherwydd "er bod rhai teuluoedd yn amlwg iawn i lawer o wasanaethau - efallai fod y rhieni'n hysbys i'r heddlu a gwasanaethau trais domestig, efallai fod y plant yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol, ac efallai fod aelodau unigol o'r teulu ymhlith defnyddwyr amlwg darpariaeth y GIG - mae'n bosibl na fydd cyfleoedd i amryw asiantaethau gydweithredu â'i gilydd yn cael eu datblygu'n ddigonol neu y bydd cyfleoedd o'r fath yn cael eu colli'n gyfan gwbl." Gyda sêl bendith Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, yn ystod mis Mehefin 2017, aeth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ati i adnabod teulu a oedd yn defnyddio amryw wasanaethau i raddau helaeth iawn. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn mapio natur a chost ymatebion asiantaethau yn ystod cyfnod penodol. Cafodd SafeLives ei gomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol i werthuso'r gwaith hwnnw gyda'r bwriad o ysgogi (i) gwaith ymgysylltu amlasiantaeth credadwy a (ii) ymyriadau mwy penodol. Mae'n destun siom na chafodd SafeLives ganiatâd gan Fwrdd Rhanbarthol Gwent i ddechrau ar ei waith.

<sup>17</sup> [www.theguardian.com/education/2018/sep/02/barbaric-school-punishment-of-consequence-rooms-criticised-by-parents?CMP=Share\\_AndroidApp\\_Email](http://www.theguardian.com/education/2018/sep/02/barbaric-school-punishment-of-consequence-rooms-criticised-by-parents?CMP=Share_AndroidApp_Email) (cyrchwyd 3 Medi 2018)

## 3

## Cyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hyn



**National Independent  
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru**

### Llythyr at Huw Irranca-Davies

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru  
5ed Llawr  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl Weinidog,

### Argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau diogelu

Gan fod tymor y Bwrdd Cenedlaethol cyntaf wedi pasio mor sydyn, rydym wedi penderfynu cyflwyno ein myfyrdodau a'n hargymhellion drwy grynhoi ein profiad o weithio yng Nghymru a thu hwnt. Isod mae ein hymgais i nodi dulliau gweithio addawol o safbwynt hybu gwasanaethau sy'n fwy ymwybodol o ddiogelu ac o safbwynt archwilio potensial llawn y Bwrdd Cenedlaethol yn y dyfodol.

Mae ei ddyletswyddau statudol yn glir ond mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi addasu i'r heriau a'r anghenion a nodwyd gan y Byrddau Rhanbarthol ac wedi dod o hyd i le priodol iddo'i hun. Mae ein cynlluniau gwaith wedi ceisio cefnogi ac ategu gwaith y Byrddau Rhanbarthol. Mae ein sylwadau ar ganllawiau newydd a chomisiynau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'n cyfleu diddordeb y Bwrdd Cenedlaethol mewn glynu wrth ysbryd a chynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi dysgu cymaint o ddod â phobl allweddol ynghyd i egluro'r heriau sy'n ymwneud â diogelu yng Nghymru, a chadarnhau pwysigrwydd creu rhwydweithiau gydag arweinwyr diogelu ar bob lefel.



Mae'r ffaith bod Cadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol – yr arweinwyr a'r rheolwyr – yn cydnabod yr angen i gydweithio ag eraill, dylanwadu ar eraill ac ysbrydoli eraill yn hollbwysig o safbwynt atal niwed ac amddiffyn pobl.

Mae mentrau ffrwythlon o'r fath wedi'u cynnal ochr yn ochr â thrafodaethau llai amlwg y Bwrdd Cenedlaethol wrth ymateb i ddigwyddiadau a phwysau lleol. Mewn gwirionedd, mae dysgu wedi bod yn thema hollbwysig o'r dechrau'n deg. Nid yw'r ymadrodd "dysgu gwersi", a orddefnyddir, yn gwneud cyfiawnder â'r dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith diogelu (sydd fel rheol yn digwydd gyda gwybodaeth amwys neu anghyflawn), yr arbenigedd sy'n deillio o ymdrin â phroblemau real a'r dysgu sy'n digwydd o ennill profiad. Fel rheol, bydd arbenigwyr yn defnyddio ystod o atebion a gaiff eu haddasu i'r broblem. Mae arbenigedd ym maes diogelu oedolion yn ymwneud â defnyddio deddfwriaeth, bod yn barod i ystyried a yw unigolyn yn wynebu risg o niwed ai peidio gydag "achos rhesymol i amau" y gallai fod, gwneud ymholiadau a chymryd camau gweithredu ystyriol a chymesur. Mae hynny'n dwyn i gof un o gamau gwag y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2016-17. Gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth gan y Byrddau Rhanbarthol am hyfforddiant ynghylch diogelu drwy alw adran 139 i rym – a chafodd y cais ei anwybyddu gan bedwar o'r Byrddau! Roedd yr amseru'n anghywir, ond mae'r bwriad a oedd yn sail i'r cais yn dal yn berthnasol. Er ei bod yn galonogol bod Byrddau yn rhannu eu dadansoddiadau eu hunain o anghenion o ran hyfforddiant â Gofal Cymdeithasol Cymru, nid oes trosolwg ar gael o hyfforddiant ynghylch diogelu yng Nghymru ac nid oes safonau ar gael y gellir barnu hyfforddiant ar eu sail.

### **Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno modiwl e-ddysgu cenedlaethol ynghylch diogelu ar gyfer hyfforddiant lefel mynediad / haen 1, sy'n berthnasol i glybiau chwaraeon, y gwasanaeth tân a swyddogion tai, er enghraifft, ac nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer gofal cymdeithasol**

Mae un o gamau gwag eraill y Bwrdd Cenedlaethol yn ymwneud â'n petruster o safbwynt defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Gan mai'n achlysurol yn unig yr ydym wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol hyd yma, gellir dadlau ei bod yn bryd yn awr i ni eu defnyddio o ddifrif.

Penderfynodd y Bwrdd Cenedlaethol ar y dechrau'n deg na fyddai'n gwneud sylwadau ynghylch adolygiadau ymarfer unigol, gan y byddai hynny'n peryglu ein dyletswydd i ddarparu "cymorth a chyngor" i'r Byrddau Rhanbarthol. Caiff yr egwyddor hon ei hargymhell er gwaethaf cryfder y farn gyhoeddus a fynegwyd yn uniongyrchol ar gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae tri mater yn berthnasol i adolygiadau ymarfer:

- y graddau y maent ar gael – er bod y rheoliad yn nodi y dylid *trefnu bod yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer ar gael i'r cyhoedd* (Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, 4 (5)(l)), mae rhai Byrddau Rhanbarthol wedi tynnu'r adroddiadau oddi ar eu gwefannau. Oherwydd hynny, dechreuodd y Bwrdd Cenedlaethol roi'r adroddiadau ar ei wefan ef yn ystod 2017-18
- y modd y dehonglir y rheoliad *sicrhau nad yw'r adroddiad ar yr adolygiad ymarfer yn datgelu pwy yw'r plentyn neu'r oedolyn sy'n destun yr adolygiad na theulu'r plentyn neu'r oedolyn na lle y maent* (4 (5)(i)). Mae rhywedd yn ystyriaeth hollbwysig ym maes diogelu. Nid yw pobl yn ddiryw ac nid yw gweithwyr proffesiynol yn ymdrin â nhw fel pobl ddiryw, felly pam y dylai adolygiadau ymarfer eu gwneud yn ddiryw?

- Y modd y caiff camau gweithredu eu cynllunio – byddem yn anghywir i gredu bod cynlluniau gweithredu hirfaith yn mynd i'r afael â'r niwed a'r creulondeb sy'n arwain at adolygiadau ymarfer. Gall cynlluniau gweithredu gymryd misoedd lawer o waith atgoffa cyn y cânt eu cymeradwyo'n derfynol – ac erbyn hynny mae'n bosibl y bydd eu cysylltiad â'r sail resymegol dros gynnal yr adolygiad wedi diflannu ers amser.

### **Rydym yn argymhell y dylai pob Adolygiad Ymarfer Plant / Oedolion (a) gael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Cenedlaethol am gyfnod interim a (b) yn nodi rhywedd yr unigolion dan sylw.**

Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn destun pryder i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i ni'n cynnwys: A ddylai cynghorwyr gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? Pa asiantaeth ddylai dalu am y broses wirio? Pam y mae safonau gwahanol yn cael eu defnyddio yng nghyswllt gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r un unigolion? Rydym wedi cyfeirio'r sawl a ofynnodd y cwestiynau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Llywodraeth Cymru gan wybod y bydd cwestiynau tebyg yn dal i gael eu gofyn.

Ymddengys i ni fod yr awydd i orfanylu ar weithgareddau diogelu'n dal yn amlwg iawn a bod hynny'n digwydd wrth ddrafftio gweithdrefnau a phrotocolau – fel pe bai modd i broblemau sy'n ymddangos yn ailadroddus gael eu datrys drwy bennu cyfres unffurf o weithrediadau. Mae'n destun siom nad yw'r gwaith o ddatblygu protocolau'n lleihau.

Mae'r rheoliadau yn disgrifio un o swyddogaethau'r Byrddau fel a ganlyn:

#### *3. (2) cydweithredu â Byrddau Diogelu eraill a'r Bwrdd Cenedlaethol gyda golwg ar –*

*(i) chyfrannu at ddatblygu ac adolygu **polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol** [ychwanegwyd y pwyslais] ar gyfer Byrddau Diogelu,*

*(ii) gweithredu polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol a argymhellir gan, a chanllawiau a chyngor a roddir gan, y Bwrdd Cenedlaethol.*

Ceir rhagor o fanylion yn y canllawiau statudol:

*113. a) ...a chyfrannu at ddatblygu polisiau a gweithdrefnau i gydgyssylltu'r hyn sy'n cael ei wneud gan y partneriaid a'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion amddiffyn oedolion a phlant ac atal camdriniaeth...*

*123. Rhaid i Fwrdd Diogelu sicrhau bod protocolau lleol ar waith sy'n cydgysylltu'r gwaith rhyngasiantaethol sy'n cael ei gyflawni yn ardal y Bwrdd, gan bartneriaid Bwrdd a chyrrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd a gan gyrff eraill â chyfrifoldebau diogelu. Dylai'r protocolau hyn gael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol o ran hysbysu a thywys unigolion ac asiantaethau yn eu cyswllt â'r Bwrdd a'u mynediad at wasanaethau amddiffyn amlasiantaethol, ac i fonitro sut mae'r protocolau'n gwella ymatebion a darpariaeth gwasanaethau rhyngasiantaethol yn yr ardal.*

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol y Llynedd yn dal yn berthnasol oherwydd nid adroddwyd bod unrhyw brotocolau, adnoddau, strategaethau na gweithdrefnau penodol wedi'u gwaredu o ganlyniad i adolygiadau:<sup>18</sup>

1. Sut y mae unigolion y gwyddys iddynt wynebu risg o niwed yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu protocolau, adnoddau, strategaethau a gweithdrefnau?
2. A oes gan y Byrddau Rhanbarthol dystiolaeth bod protocolau, polisiâu, adnoddau a gweithdrefnau yn cynyddu'r graddau y gellir rhagweld ymarfer?
3. Sut y caiff ymarferwyr sicrwydd bod y dogfennau hyn yn angenrheidiol o safbwynt llywio ymarfer effeithiol ac effeithlon?
4. A yw'r Byrddau Rhanbarthol o'r farn bod modd i'w protocolau fod yn berthnasol ar draws amryw grwpiau a sefyllfaoedd?
5. A yw'r Byrddau Rhanbarthol yn siŵr bod eu protocolau yn ddefnyddiol i'r unigolion sy'n cael gwasanaethau diogelu?
6. Sut y mae'r gwaith o greu protocolau anstatudol yn sicrhau dulliau gweithredu atebol?

Ymddengys fod rhai Byrddau Rhanbarthol yn debyg i gwmnïau meddalwedd sy'n ysgrifennu codau i warchod eu cynnyrch. Maent yn gyfarwydd â firsau sy'n ffynnu ar ddod o hyd i ddiffygion, a'u hymateb yw ysgrifennu meddalwedd sy'n eu gwarchod yn fwyfwy helaeth. Wrth i 'broblemau' newydd ddod i'r amlwg, mae angen polisiâu i sicrhau bod y system ddiogelu'n fwy cynhwysfawr. Y ffordd o gael gwared â'r hyn sy'n ategu'r gwaith parhaus o gynhyrchu polisiâu a'u canllawiau cysylltiedig yw diwygio paragraff 123 y canllawiau statudol. Mae perygl y bydd ymarferwyr yn cael eu llethu gan nifer cynyddol o brotocolau, polisiâu a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.

Gallwn gadarnhau bod pob un o'r Byrddau Rhanbarthol yn parhau i ymdrechu'n ddyfal ac yn ddiflino i dynnu sylw eu cymunedau at bwysigrwydd diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Nid ydym am i'r egni sydd y tu ôl i'r ymdrech ddyfal honno gael ei wastraffu neu'i gloi yn y fformiwla sy'n gysylltiedig â phrotocolau a chanllawiau – oherwydd ni allant, ac ni ddylent, gyfarwyddo disgrisiwn pob gweithiwr proffesiynol ym mhob amgylchiad.

## **Rydym yn argymhell y dylid gweithredu'n fwy ystyriol wrth ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau sy'n mynd i'r afael â chwestiynau 1-6.**

Mae adroddiadau blynyddol 2017-18 pob un o'r chwe ardal Bwrdd Diogelu yn cydymffurfio'n fwy helaeth nag adroddiadau'r llynedd â'r gofynion o ran cynnwys. Fodd bynnag, nid ydym yr un mor hyderus â rhai sefydliadau bod y ffaith bod eu huwch-reolwyr cyflogedig yn mynychu cyfarfodydd, ac yn rhoi neu'n cael cyflwyniadau, yn dystiolaeth o gydweithredu. Nid yw presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r is-grwpiau yn dystiolaeth ddigonol o gyfranogiad a chydweithredu. Yr hyn y mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi'i weld yw bod rhai asiantaethau'n mynychu cyfarfodydd ond nad ydynt yn cyfrannu dim. Efallai yr hoffai'r Cadeiryddion gynnal eu harchwiliad eu hunain o effeithiolrwydd cyfraniadau asiantaethau unigol i'r blaenoriaethau amlasiantaeth, sy'n ategu hunanasesiad yr asiantaethau o'u cyfraniadau.

<sup>18</sup> Mae Cwm Taf yn cyfeirio at ddileu protocolau presennol nad ydynt yn berthnasol mwyach

Ceir rhai enghreifftiau trawiadol o amryw achosion o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru, ac eto nid yw'r dasg o adnabod yr unigolion, yr asiantaethau a'r arweinwyr sy'n gyfrifol amdanynt yn cael ei chyflawni hyd yma. Mae rhai o'r Byrddau wedi cefnu ar y camystumio sy'n deillio o fod ynghlwm wrth un ffordd o wneud pethau, ac maent yn dysgu gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn ogystal â chydweithwyr ar draws disgyblaethau. Mae sylfeini mentrau newid Canolbarth a Gorllewin Cymru yn deillio o'r ffaith bod yr uwch-reolwyr yn cydnabod adnoddau a chryfderau plant a phobl ifanc, sydd wedi newid natur cydberthnasau; ac mae'r Prif Grwner yn y gogledd wedi cymeradwyo gwaith y Bwrdd Rhanbarthol yng nghyswllt oedolion sy'n hunanesgeuluso, sy'n egluro ble a sut y dylid dechrau'r broses o newid ar sail amgylchiadau a blaenoriaethau'r oedolion.

### **Rydym yn argymhell y dylai Byrddau Rhanbarthol egluro'r ffyrdd y maent (a) yn ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion a (b) yn cymryd camau gweithredu o ganlyniad.**

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn fwy tebygol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc nag oedolion. Mae partneriaethau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015) yn gysylltiedig â gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol oherwydd bod eu haelodaeth yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y ceir ymateb cydweithredol ac integredig gan wasanaethau diogelu oedolion a gwasanaethau cam-drin domestig. Er enghraifft, mae trais yn erbyn pobl 60+ oed yn fwy tebygol o arwain at ymchwiliad dan adran 124 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) nag at ddarparu cymorth gan ddefnyddio fframwaith cymorth ar gyfer camdriniaeth ddomestig, gan gynnwys mynediad i opsiynau o ran cyfiawnder sifil a throseddol.<sup>19</sup> Mae angen rhoi sylw i'r sefyllfa sy'n codi o ganlyniad, sef nad yw pob achos o gamdriniaeth ddomestig a ddiodefir gan bobl hŷn yn cael ei gofnodi.

Yn adroddiadau blynyddol 2017-18 ceir enghreifftiau o ddysgu gwersi o ddigwyddiadau torcalonnus, nad oeddent wedi'u cynnwys yn adroddiadau'r llynedd. Er enghraifft, nododd Cwm Taf ei fod wedi gwneud camgymeriad wrth symud dynes hŷn â dementia o'i chartref teuluol oherwydd y cleisiau nad oedd modd cael esboniad yn eu cylch, a bod y penderfyniad i wneud hynny wedi'i seilio ar ddealltwriaeth ddiffygiol gweithwyr proffesiynol o'r gyfraith; disgrifiodd Gogledd Cymru ei fuddsoddiad mewn gwelliannau gydag Ysbyty Glan Clwyd / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac yn benodol ei waith gydag Uned Iechyd Meddwl ddiffygiol arall yn yr ysbyty hwnnw; ac roedd ymrwymiad Canolbarth a Gorllewin Cymru i herio rhanddeiliaid i wella canlyniadau i bobl wedi deillio o ddiffygion gwasanaethau plant Powys – a waethygydd gan drosiant uchel a chyflym ymhlith aelodau uwch o staff a chan system Technoleg Gwybodaeth newydd sydd wedi atal Powys rhag rhannu data.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau blynyddol yn cynnwys gormod o acronymau, jargon a thermau heb eu hesbonio ar gyfer darllenwyr sy'n aelodau o'r cyhoedd. Er enghraifft, mewn testun Saesneg gwelwyd yr acronymau a'r termau canlynol: "Bronze officers", "MASE", "CEF", "SARC", "Bedfordshire Action Plan", "PRAMS Service", "PRMG", "a high SERAF score" ac "UNCRC". Dylai sylw i waith prawfddarllen, ac adborth gan gynulleidfaoedd posibl, olygu bod acronymau a jargon yn cael eu dileu mewn unrhyw ddeunydd a gyhoeddir.

Mae amlygu'r cysylltiad rhwng cynlluniau blynyddol y Bwrdd a chanlyniadau i blant, pobl ifanc ac oedolion yn bwysig er nad yw'n rhwydd. Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn dal i ganolbwyntio'n helaeth iawn ar roi trefn ar eu strwythurau, eu helpennau cynorthwyol a'u cylch gorchwyl er enghraifft.

<sup>19</sup> Wydall, S., Clarke, A., Williams, J. a Zerk, R. (2018) Domestic Abuse and Elder Abuse in Wales: A Tale of Two Initiatives *British Journal of Social Work* (48) 962-981

Mae cynnydd yn cael ei gyflawni, ond mater i'r darlennydd yw dyfalu beth yw'r nod / gweledigaeth hirdymor. Mae gwerth mewn egluro'r gwelliannau a wnaed yn ogystal â'r rhwystrau y daethpwyd ar eu traws, y canlyniadau i blant, pobl ifanc ac oedolion, a'r tasgau sy'n weddill. Er enghraifft, nododd Canolbarth a Gorllewin Cymru fel a ganlyn: "Gwneir rhagor o waith yn y flwyddyn sydd i ddod...er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn amlasiantaethol yn hytrach na bod yn orddibynnol ar wybodaeth gofal cymdeithasol."

### **Rydym yn argymhell y dylai pob Bwrdd Rhanbarthol adrodd ynghylch sut y mae eu cynlluniau a'u rhaglenni gwaith yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion / teuluoedd; yr unigolion yr honnir eu bod yn gyfrifol am achosi'r niwed; y gwasanaeth; a'r cyrff comisiynu.**

Ymataliodd y Bwrdd Cenedlaethol rhag argymhell wrth Weinidogion Cymru y dylai byrddau iechyd ymgysylltu mewn modd credadwy â Byrddau Diogelu Rhanbarthol cyn comisiynu adolygiadau annibynnol sy'n ymwneud â niwed i gleifion, gan gynnig yn hytrach ffordd o archwilio aliniad credadwy â diben adolygiadau ymarfer, sef *canfod unrhyw gamau y gall partneriaid y Bwrdd Diogelu neu gyrff eraill eu cymryd i wella ymarfer amddiffyn plant ac oedolion amlasiantaethol* (Rheoliad 4 (2)). Rydym yn credu bod gwerth mewn sicrhau bod arweinwyr ar draws y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cynnal ymarfer "Meddwl Ddwywaith" er mwyn deall yn union beth yw effeithiau adolygiadau annibynnol ar yr unigolion dan sylw, eu perthnasau, ymarferwyr ar draws amryw sectorau ac ardaloedd Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

O safbwynt y Bwrdd Cenedlaethol, mae'n destun siom nad aethpwyd i'r afael â'r bwlch yn y rheoliadau sy'n ymwneud â pherchnogaeth pob dogfen ynghylch adolygiadau diogelu. Ddeunaw mis yn ôl gwnaethom argymhell y dylai Gweinidogion Cymru ymdrin â'r dryswch ynghylch llywodraethu'r broses adolygu. Cafwyd caniatâd i ddechrau ar y gwaith hwn yn ystod mis Medi 2018. At hynny, bu i ni nodi bod y prinder darpariaeth ar gyfer plant sy'n hysbys i wasanaethau iechyd meddwl plant a gwasanaethau troseddau ieuencid yn fater yr oedd angen i Weinidogion roi sylw iddo ar frys. Er ei bod bellach yn haws i'r bobl ifanc hyn gael eu lleoli mewn gwasanaethau diogel yn Lloegr, rydym yn gobeithio y bydd Gweinidogion yn dal i roi sylw parhaus i'r amgylchiadau sy'n arwain at leoliadau o'r fath – a'r costau dynol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig ag achosion lle mae byrddau iechyd yn methu ag adnabod y gwasanaethau y mae ar bobl ifanc eu hangen er mwyn cael triniaeth. Nid ydym yn hyderus bod y sector rhentu newydd ar gyfer unedau arbenigol, gan gynnwys cymorth "gwib" er enghraifft, yn mynd i'r afael â'r arfer cywilyddus o anfon plant a phobl ifanc o Gymru i rannau eraill o'r DU. Rydym yn tybio bod y cynnydd sydyn mewn ceisiadau i'r Uchel Lys yn cuddio methiant i ddarparu triniaeth ddigonol ar gyfer problemau iechyd meddwl.

### **Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod fel mater o drefn i'r Bwrdd Cenedlaethol am y ceisiadau a gyflwynwyd ganddi i'r Uchel Lys yn gofyn i'r llys arfer ei 'awdurdodaeth gynhenid'.**

Roedd cyflwyno Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i fyd cymhleth diogelu plant ac oedolion yn siŵr o fynnu rhywfaint o ymaddasu ac ymgynefino gan bawb. Mae wedi bod yn fodd i gyflwyno ffordd newydd o feddwl am y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymarfer diogelu.

Roedd gan y Bwrdd Cenedlaethol ran bwysig i'w chwarae o safbwynt dod â Chadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol ynghyd i daflu goleuni ar yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae ein perthynas â'r Cadeiryddion, y Byrddau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru wedi aeddfedu ac mae'n braf bod datblygiadau'n digwydd y mae dylanwad y Bwrdd Cenedlaethol yn amlwg arnynt. Fodd bynnag, dim ond darlun rhannol o gyflwr diogelu yng Nghymru sy'n bosibl oherwydd nad oes set ddata unigol ar gael sy'n ei gwneud yn bosibl llunio cymariaethau. Nid yw'n ofynnol i'r Byrddau Rhanbarthol nodi data ynghylch atgyfeiriadau yn eu hadroddiadau blynyddol, er bod Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn gwneud hynny. Mae Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf yn adrodd ynghylch nifer a hynt Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion; mae Gogledd Cymru yn adrodd ynghylch niferoedd y cartrefi nyrsio a'r cartrefi preswyl y mae'r broses "Uwchgyfeirio Pryderon" yn berthnasol iddynt; mae Cwm Taf a Bae'r Gorllewin yn adrodd ynghylch yr atgyfeiriadau a ddeilliodd o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; mae Gwent yn rhestru teitlau cyrsiau, nifer y sesiynau a nifer y bobl a'u mynychodd; ac mae Cwm Taf yn adrodd ynghylch yr asesiadau a gynhaliwyd yng nghyswllt Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid ac ynghylch y sawl sydd ar ei restr aros.

### **Rydym yn argymhell y dylai'r Byrddau Rhanbarthol, y Bwrdd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru nodi pum mesur sy'n datgelu rhywbeth am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu, a chytuno ar y pum mesur hynny**

Mae'r gwaith sydd i'w wneud yn cynnwys rhoi sylw i ddata diogelu; cael y Byrddau Rhanbarthol i gymryd cyfrifoldeb sylfaenol am herio pob un o'u haelodau i gael profiad uniongyrchol o ganlyniadau eu penderfyniadau; rhoi blaenoriaeth i fframwaith hyfforddiant cyson sydd â safonau penodol; hyrwyddo gwaith gwerthfawr ac ysbrydoledig ymarferwyr; sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc anweladwy sy'n cael addysg yn y cartref yn dod yn weladwy; adeiladu ar waith ardderchog Amanda Robinson a'i chydweithwyr o safbwynt cyfuno gwaith dysgu; manteisio ar syniadau ac arbenigedd y Grŵp Penaethiaid Arolygiaethau – sy'n dwyn ynghyd yr arolygiaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau plant ac oedolion – yn fwyaf penodol yng nghyswllt archwiliadau o werth cyhoeddus byrddau diogelu amlasiantaeth; rhoi mwy o sylw i gyfranogiad plant, pobl ifanc ac oedolion yn y gwaith o lunio blaenoriaethau'r Byrddau - a rhoi sylw penodol i leisiau'r sawl sy'n fwy tebygol o gael eu hallgáu, sef pobl ifanc ac oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl, y sawl sydd ag anabledau dysgu a'r sawl sydd â nam ar eu golwg a/neu'u clyw; a cheisio cysondeb gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar draws y sector gofal cymdeithasol, y sector gofal iechyd a'r sector addysg yng Nghymru. Byddai cyfarfodydd Gweinidogol rheolaidd yn rhoi sicrwydd bod y Byrddau Rhanbarthol yn tanseilio mewn ffyrdd gwahanol y rhwystrau sy'n atal camau i gyflawni a thracio ymarfer diogelu effeithiol.

Gwaith ymarferwyr penderfynol ar draws proffesiynau a sectorau yw'r gwaith mwyaf ysbrydoledig – hyd yn oed os yw hymdrechion weithiau'n ofer. Maent yn cywiro pethau mor aml ag sy'n bosibl ac yn troi ein gofal greddfol am ein gilydd yn rhinwedd sy'n darogan dyfodol llawn gobaith.

Yn olaf, rydym wedi mwynhau gweithio gyda'n gilydd yn fawr iawn. Mae pob un ohonom wedi bod yr un mor benderfynol â'n gilydd o wneud popeth a oedd o fewn ein gallu, a defnyddio pob dull a oedd ar gael i ni, i sicrhau bod ein rhaglen waith yn cyd-fynd â buddiannau'r Byrddau Rhanbarthol. Mater i eraill yw barnu ein llwyddiant, ond yn ein barn ni rydym wedi sefydlu Bwrdd Cenedlaethol sy'n ychwanegiad gwerthfawr i'r maes diogelu yng Nghymru. Hoffem ddymuno pob llwyddiant i'r Bwrdd a fydd yn ein holynu.

**Margaret Flynn, Keith Towler, Simon Burch, Ruth Henke, Jan Pickles a Rachel Shaw**





**National Independent  
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru**



## Dysgwch fwy



[www.bwrdddiogelu.cymru](http://www.bwrdddiogelu.cymru)



[@NISBWales](https://twitter.com/NISBWales)



[safeguardingwales](https://www.facebook.com/safeguardingwales)

